



**Plismona yn yr 21<sup>ain</sup> Ganrif:  
Ailgysylltu'r heddlu a'r bobl**

**Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad a chamau nesaf**

## Cynnwys

### Plismona yn yr 21<sup>ain</sup> Ganrif: Ailgysylltu'r heddlu a'r bobl

### Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad a chamau nesaf

Rhagair yr Ysgrifennydd Cartref .....	2
GWIR ANRHYDEDDUS THERESA MAY AS.....	5
Pennod 1: Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn .....	6
Pennod 2: Cynyddu atebolrwydd democrataidd .....	8
Pennod 3: Diddymu atebolrwydd biwrocataidd .....	20
Pennod 4: Fframwaith cenedlaethol ar gyfer plismona lleol effeithiol .....	26
Pennod 5: Taclo troseddu gyda'n gilydd .....	33
Rhestr o ymatebwyr .....	39

### © Hawlfraint y Goron 2010

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfbais Frenhinol a logos adrannau neu asiantaethau) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod ffynhonnell y deunydd fel Hawlfraint y Goron ac mae'n rhaid cynnwys teitl y ddogfen.

Ble rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd rhaid i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

ISBN: 978-1-84987-355-0

Gallwch weld y ddogfen hon ar-lein, neu weld fersiwn Saesneg, yn: <http://www.homeoffice.gov.uk/policingconsultation>

## Rhagair yr Ysgrifennydd Cartref



Yn fy anerchiad i Dŷ'r Cyffredin ar 26 Gorffennaf, fe ddatganais gyhoeddi ymgynghoriad – *Plismona yn yr 21<sup>ain</sup>* Ganrif: *Ailgyssylltu'r heddlu a'r bobl* – ble sefydlodd y Llywodraeth y diwygiadau mwyaf radical i blismona mewn o leiaf 50 mlynedd, gan adeiladu ar ymroddiadau a wnaed yng Nghytundeb y Glymblaid.

Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau etholedig yn ganolog i'n cynigion i amnewid atebolrwydd biwrocraidaidd o Lywodraeth ganolog gydag atebolrwydd democrataidd gan y cyhoedd. Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn gwneud heddluoedd yn wirioneddol atebol i'r cymunedau maent yn gwasanaethu, gan sicrhau fod adnoddau wedi eu targedu'n briodol ble mae eu hangen ac yn rhoi mwy o lais i'r cyhoedd mewn mesurau i leihau troseddu a gwella diogelwch cymunedol.

Rwy'n ddiolchgar i bawb sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion hynny ac yn sefydlu'r camau nesaf i weithredu'r diwygiadau.

Mae nodweddion allweddol ein diwygiadau yn cynnwys:

- Amnewid awdurdodau heddlu presennol gyda Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau etholedig, a fydd yn dal heddluoedd yn atebol, yn cryfhau'r cyswllt rhwng yr heddlu a'r cyhoedd ac yn gweithio gyda phartneriaid i leihau troseddu a gwella diogelwch cymunedol;
- Paneli'r Heddlu a Throseddau newydd i ddarparu craffu pwysig o swyddogaethau Comisiynwyr, gydag aelodaeth yn cynnwys cynghorau haen uchaf a dosbarth – gan gynnwys cynghorau dosbarth yn ffurfiol mewn plismona am y tro cyntaf;

- Fframwaith o wiriadau a gwrthbwsau i graffu ar Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ac Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi mwy annibynnol.
- Cryfhau disgresiwn proffesiynol, lleihau biwrocratiaeth a rhyddhau amser swyddogion yr heddlu;
- Mwy o gydweithredu rhwng heddluoedd i gynyddu amddiffyniad o'r cyhoedd ac arbed arian;
- Graddol ddirymu'r Asiantaeth Gwella Plismona Cenedlaethol a chreu Asiantaeth Genedlaethol Troseddau (NCA) newydd i arwain y frwydr yn erbyn troseddu cyfundrefnol a chryfhau diogelwch ein ffiniau. Bydd hyn wedi ei gefnogi gan fframwaith cliriach ar gyfer Comisiynwyr Lleol a'u heddluoedd, fydd wedi ei sefydlu mewn Gofyniad Plismona Strategol newydd (mewn ymateb i rywfaint o'r adborth a dderbyniom yn ystod yr ymgynghoriad); a
- Darparu rôl glir i bawb, yn cynnwys y cyhoedd, mewn lleihau troseddu trwy gyfarfodydd bîf, cynlluniau gwarchod cymdogaeth a grwpiau gwirfoddol.

Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau etholedig yn ganolog i'n cynigion i amnewid atebolrwydd biwrocraidd o Lywodraeth ganolog gydag atebolrwydd democrataidd gan y cyhoedd. Rwy'n hyderus y byddant yn dod ag egni newydd a llais cryfach i'r cyhoedd i blismona; yn dod â heddluoedd yn agosach at y cymunedau maent yn gwasanaethu.

Rydym wedi gwrando'n ofalus ar beth sydd gan bobl i ddweud ac mae'n cynigion terfynol yn ystyried hyn. Mae'r Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yr ydym y gyhoeddi heddiw yn rhoi mwy o fanylion ar rymoedd a dyletswyddau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Phaneli'r Heddlu a Throseddau newydd a sut fydd y Comisiynwyr yn gweithio gyda'u heddlu a darparwyr lleol eraill.

Mae'r Llywodraeth yn deall yn glir fod y cyhoedd eisiau gweld eu heddluoedd lleol yn cymryd yr ystod lawn o gyfrifoldebau plismona, o'r lleol iawn i'r mwyaf difrifol. Felly rhaid i'r Comisiynwyr chwarae eu rhan yn llawn mewn materion

enedlaethol a trawsffiniol yn ogystal â phryderon lleol. Felly rwyf am roi'r cyfrifoldebau a chefnogaeth briodol i'r Comisiynwyr i sicrhau fod prif gwnstabiailid yn rhoi blaenoriaeth ddyledus i faterion cenedlaethol megis troseddau cyfundrefnol difrifol, gwrthderfysgaeth a chydweithio rhwng heddluoedd.

Bydd yr NCA yn gweithio gyda Comisiynwyr a heddluoedd i gryfhau eu gwaith i daclo troseddau cyfundrefnol – a bydd y mesurau atebolrwydd fydd yn cael eu sefydlu ar gyfer yr NCA yn cysylltu i'r rôl bwysig fydd gan y Comisiynwyr o ran hyrwyddo cydweithio rhwng heddluoedd.

Rydym yn gweithredu'r Comisiynwyr a'r diwygiadau hyn yng nghyd-destun setliad arolwg gwario sy'n adlewyrchu penderfyniad y Llywodraeth i daclo'r diffyg digynsail mewn cyllid. Mae'r Canghellor bellach wedi gosod setliad y Swyddfa Gartref, yn cwmpasu'r cyfnod o 2011/12 i 2014/15. Bydd cyllid craidd y Llywodraeth ar gyfer plismona yn lleihau o 20% mewn termau real yn ystod y pedair blynedd nesaf. Os bydd awdurdodau'r heddlu (ac wedi hynny Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau) yn dewis cynyddu praesept ar y lefel a ragwelir gan y Swyddfa dros Gyfrifoldeb Cyllidol, golyga'r setliad y bydd cyllidebau'r heddlu yn lleihau o 14% mewn gwir dermau ar gyfartaledd.

Mae'r heddlu yn chwarae rôl allweddol mewn cymdeithas, ond mae'n amlwg fod yna gwmpas parhaus i sicrhau arbedion sylweddol tra'n gwarchod a gwella gweledd ac argaeledd plismona i'r cyhoedd. Yn fuan iawn byddwn yn cyflwyno i'r Senedd yn union beth fydd y setliad hwn yn golygu i bob heddlu.

Felly mae'n rhaid i heddluoedd fod yn ddiarbed wrth daclo gwario gwastraffus a biwrocratiaeth. Rydym wedi cynorthwyo'r broses hon trwy ddiddymu unrhyw dargedau o'r brig i lawr ac ymyrraeth ddiangen gan Lywodraeth ganolog yn y busnes o blismona a lleihau gwaith papur diangen i sicrhau y gall swyddogion ganolbwyntio ar frwydro troseddu yn hytrach na llenwi ffurflenni. Gellir hefyd cynyddu effeithiolrwydd trwy gael gwared ar ddyblygu ymdrech gwastraffus rhwng heddluoedd ar bwrcasu, TG, a chefnogaeth busnes a gweithredol. Bydd


PCCs yn dal eu prif gwnstabiliaid yn atebol am werth yr arian maent yn darparu yn yr amserau economaidd heriol hyn.

### **Camau nesaf**

Mae'r ymarfer ymgynghori wedi'n galluogi i ddatblygu'n syniadau ar ein diwygiadau arfaethedig. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'n cynlluniau ym mhob maes.

Y cam nesaf fydd taith y Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol trwy'r Senedd, a fydd yn cyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau. Yn amodol i gymeradwyo'r Mesur yn y Senedd, fe gynhelir yr etholiadau cyntaf ar gyfer y Comisiynwyr ym Mai 2012. Yn hyn o beth a meysydd eraill nad ydynt angen deddfwriaeth, byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau y gweithredir ein cynigion yn effeithiol a'u bod yn bodloni anghenion y cyhoedd a gwasanaeth yr heddlu.

O wneud hyn, mae'r Llywodraeth yn benderfynol y bydd yn bachu ar y cyfle i drawsnewid plismona yn ein gwlad, Trwy gryfhau atebolrwydd democrataidd, sicrhau arbedion angenrheidiol ac ailgysylltu'r heddlu a'r bobl. O wneud hynny, byddwn yn gweld y lleihad mewn trosedd a chymunedau mwy diogel a hunan dibynadwy yr hoffem oll weld.



**GWIR ANRHYDEDDUS THERESA MAY AS  
YSGRIFENNYDD CARTREF**

## Pennod 1: Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

### Trosolwg o'r broses ymgynghori

- 1.1 Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar 26 Gorffennaf 2010. Fe sefydlodd gynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer diwygio'r heddlu, yn cynnwys elfennau fydd yn rhan o Fesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol. Fe gyflwynodd 23 o gwestiynau ledled pedwar maes polisi gwahanol a gwahodd sylwadau gan sefydliadau cenedlaethol, lleol a rhanbarthol, heddluoedd ac awdurdodau heddlu, ymarferwyr rheng flaen, cymdeithasau a grwpiau neu unigolion eraill â diddordeb.
- 1.2 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o wyth wythnos ac roedd hefyd yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus a thrafodaethau gyda phartneriaid plismona allweddol.

### Dull yr ymgynghoriad

- 1.3 Roedd yr ymgynghoriad ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref, [www.homeoffice.gov.uk/policingconsultation](http://www.homeoffice.gov.uk/policingconsultation) fel dogfen PDF. Fe'i darparwyd yn Gymraeg a Saesneg. Darparwyd fersiynau print bras a sain i'w lawrlwytho o'r wefan. Gellid cwblhau ymatebion i'r ymgynghoriad yn ddiennw ar-lein, a'u cyflwyno trwy e-bost neu eu postio i'r Swyddfa Gartref ar ffurf ysgrifenedig.
- 1.4 I gefnogi'r broses ymgynghori, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau rhanbarthol ar gyfer amrywiol feysydd polisi i gasglu barn y cyhoedd, y rhai sy'n ymwneud â llywodraethu'r heddlu ar hyn o bryd ac ymarferwyr rheng flaen. Nodwyd themâu allweddol o'r gweithdai a manylion y trafodaethau ac maent wedi eu hadlewyrchu yn y crynodeb o ymatebion isod. Cyflwynir rhestr o ddigwyddiadau yn y tabl isod.
- 1.5 Derbyniom gyfanswm o 895 o ymatebion i'r ymgynghoriad (451 wedi eu postio neu e-bostio a 444 o sylwadau ar-lein) ac rydym wedi grwpio'r rhain yn ôl **sefydliadau cenedlaethol, lleol a rhanbarthol, a heddluoedd ac awdurdodau'r heddlu**.
- 1.6 Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi rhoi eu hamser i ymateb a chyfrannu i'r broses ymgynghori hon. Nid ydym wedi rhestru'r holl unigolion a ymatebodd i'r ymgynghoriad, ond mae rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd wedi ei chynnwys ar ddiwedd y ddogfen hon.

## Tabl: Digwyddiadau ymgynghori

Nodwyd y themâu a barnau allweddol gan gyfranogwyr a'u hadlewyrchu yn y ddogfen grynoded hon.

Dyddiad	Lleoliad	Manyllyn	Cyfranogwyr
Dydd Mawrth 17 Awst	Llundain	Dinasyddion yn ymwneud â phlisma cymunedol a thrigolion Gwarchod Cymdogaeth	8
Dydd Gwener 20 Awst	Oldham	Dinasyddion yn ymwneud â phlisma cymunedol a thrigolion Gwarchod Cymdogaeth	9
Dydd Llun 23 Awst	Y Fflint	Dinasyddion yn ymwneud â phlisma cymunedol a thrigolion Gwarchod Cymdogaeth	8
Dydd Gwener 27 Awst (bore)	Swyddfa Gartref, Llundain	Cynrychiolwyr plisma gweithredol	12
Dydd Gwener 27 Awst (prynhawn)	Swyddfa Gartref, Llundain	Cynrychiolwyr llywodraethu plisma	10
Dydd Gwener 6 Medi	Caerlŷr	Dinasyddion yn ymwneud â phlisma cymunedol a thrigolion Gwarchod Cymdogaeth	4
Dydd Mercher 8 Medi	Caerdydd	Ymarferwyr diogelwch cymunedol a chynrychiolwyr llywodraethu plisma	13
Dydd Gwener 17 Medi (bore)	Leeds	Ymarferwyr diogelwch cymunedol	21
Dydd Gwener 17 Medi (prynhawn)	Leeds	Grŵp cyhoeddus	7
<b>CYFANSWM</b>			<b>92</b>



## **Pennod 2: Cynyddu atebolrwydd democrataidd**

### **EIN GWELEDIGAETH**

Bydd y cyhoedd yn cael eu grymuso i gael llais uniongyrchol yn sut y plismonir eu cymunedau. Fe gyflawnir hyn trwy gyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a fydd â'r orchwyl o ddiogelu'r cyhoedd ac arwain y frwydr yn erbyn troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddant yn dal y prif gwnstabl yn atebol; gan sicrhau fod plismona yn ymatebol i anghenion cymunedau.

### **ADBORTH O'R YMGYNGHORIAD**

#### **Rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau**

- Mae'r Llywodraeth yn hapus iawn gyda'r lefel uchel o ddiddordeb a gafwyd gan y cyhoedd a phartneriaid plismona yn y cynigion i gyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a gafwyd ym Mhennod 2 y ddogfen ymgynghori. Fe geisiodd yr ymgynghoriad adborth ar ymarferoldeb gweithredu polisi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ledled heddluoedd yng Nghymru a Lloegr.
- Cyflwynwyd ystod o farnau ar rôl y Comisiynwyr. Mynegwyd pryderon ei bod yn bosibl na fyddai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, fel un unigolyn, mor effeithiol ledled ardal gyfan heddlu ac yn ei chael yn anodd ymgysylltu'n ddigonol â chymunedau. I ddelio â hyn, awgrymodd rhai ymatebwyr y gellid penodi dirprwy gomisiynydd i gynorthwyo'r Comisiynydd i gyflawni ei rôl. Ystyriodd eraill y dylid cael bwrdd o weithredwyr i gefnogi'r Comisiynydd i'w helpu i wneud penderfyniadau a chyflawni eu hystod lawn o ddyletswyddau.
- Derbyniwyd ystod o farnau hefyd ynglŷn â'r rhwystrau a gwrthbwysau a gynigir yn yr ymgynghoriad, gyda rhai ymatebwyr yn cytuno fod y rhwystrau a gwrthbwysau yn ymddangos i fod yn gywir. Roedd rhai yn pryderu y gallai'r trefniadau brofi i fod yn rhy fiwrocataidd neu greu llinellau atebolrwydd dryslyd i brif gwnstabiliaid a'r cyhoedd. Teimlai eraill eu bod yn rhy wan, neu roeddynt am gael mwy o fanylion ar sut y byddai Paneli'r Heddlu a Throseddau yn darparu gwir her a chraffu.
- Roedd ymatebwyr yn gyffredinol yn cydnabod pwysigrwydd cael strwythurau llywodraeth digon cadarn i sicrhau y cynhelir goruchwyliaeth a chraffu priodol o blismona lleol.
- Cytunodd rhai ymatebwyr nad yw atebolrwydd presennol ar gyfer plismona yn ddigon grymus na lleol. Fe gytunont y byddai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a etholwyd yn lleol mewn safle gwell i ysgogi blaenoriaethau plismona lleol a chynrychioli'r cyhoedd trwy arwain ymgysylltiad â phartneriaid plismona lleol.
- Fodd bynnag, fe fynegodd nifer bryderon ynglŷn â natur wleidyddol rôl y Comisiynydd, ac yn benodol am gyfraniad ymgeiswyr a gefnogir gan y prif

bleidiau gwleidyddol. Maent yn credu y byddai perygl y byddai hyn yn torri ar draws y penderfyniadau gweithredol a wneir gan brif gwnstabiadaid a swyddogion eraill yr heddlu.

- Mynegwyd rhywfaint o bryder ynglŷn â dan ba amgylchiadau fyddai'r Comisiynydd yn diarddel neu wahardd prif gwnstabl a'r awgrym fod angen sefydlu mesurau diogelwch priodol.
- Croesawodd y prif ymatebwyr y bwriad i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau gael rôl ehangach yn y System Gyfiawnder Troseddol, ac mewn materion diogelwch cymunedol, gan uno amrywiol bartneriaid ar faterion lleol. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo fod angen mwy o eglurder o ran rôl partneriaid lleol eraill yn y dirwedd newydd. Mynegwyd pryderon y gallai Comisiynwyr sefydlu haenau newydd o fiwrocratiaeth a chreu ansicrwydd rhwng partneriaid oedd yn dechrau cydweithio ar feysydd megis diogelwch cymunedol a rheolaeth troseddwr integredig. Awgrymwyd amrywiol ddulliau o ymgysylltu yn cynnwys cyfarfodydd lleol, grwpiau gweithredol a'r Comisiynydd yn eistedd ar bob bwrdd lleol perthnasol.
- Cynigiodd nifer o'r ymatebwyr y dylai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau fod yn gyfrifol am oruchwylio partneriaid System Gyfiawnder Troseddol lleol, tra bod eraill yn gweld risg y gallai'r cylch gorchwyl ehangach hwn eu lledaenu'n rhy denau a cheisio eglurder ar y berthynas rhwng y Comisiynydd, cynghorau lleol, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a phartneriaid y System Gyfiawnder Troseddol.

### **Fforddiadwyedd**

- Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am eglurhad ar y costau oedd yn gysylltiedig â chyflwyno Comisiynwyr, gyda rhai'n nodi fod nifer o awdurdodau'r heddlu eisoes y teimlo fod ganddynt brinder adnoddau. O ganlyniad awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai cost darparu'r Comisiynydd â thîm cefnogaeth wedi ei staffio'n briodol i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau a chyrraedd cymunedau ledled ardal heddlu, yn sylweddol uwch na chostau presennol awdurdodau'r heddlu.
- Yn ogystal, fe gwestiynodd nifer y penderfyniad i gyflwyno costau newydd o gynnal etholiadau Comisiynwyr ar adeg pan fo gwariant cyhoeddus yn cael ei leihau'n sylweddol.

### **Fetio**

- Nododd ambell ymatebydd angen i weithredu'r un lefel o fetio ar gyfer Comisiynwyr ag y ceir ar gyfer swyddogion yr heddlu. Creda rhai y dylid fetio pob ymgeisydd posibl tra bod eraill yn credu y dylid cyflawni gwiriadau priodol ar yr ymgeisydd llwyddiannus wedi ei ethol.

### **Etholiadau**

- Cafwyd ymateb gweddol gymysg i'r cynnig i gynnal etholiadau Comisiynwyr pob pedair blynedd, a chynnwys ymgeiswyr annibynnol a phleidiau gwleidyddol. Dywedodd nifer fod etholiadau uniongyrchol, a chaniatáu i ymgeiswyr o bleidiau gwleidyddol sefyll, yn cynyddu'r risg o wleidydda plismona.
- Roedd rhywfaint o bryder ynglŷn ag ymgeiswyr yn gwneud ymroddiadau wrth ymgyrchu na allai'r heddlu eu bodloni, naill ai am nad oes ganddynt adnoddau neu am nad yw o fewn eu cylch gorchwyl i wneud hynny. Gallai hyn beri tensiwn rhwng y prif gwnstabl â'r Comisiynydd newydd etholedig a niweidio hyder y cyhoedd.
- Roedd nifer o ymatebwyr hefyd yn teimlo y byddai llinellau atebolrwydd wedi eu drysu, gyda'r Comisiynydd yn dal y prif gwnstabl yn atebol a Phanel yr Heddlu a Throseddau yn craffu ar y Comisiynydd. Gallai hyn yn ei dro arwain at y cyhoedd yn cael anhawster i wahaniaethu rhwng yr effaith rhwng gweithredoedd a phenderfyniadau'r prif gwnstabl a rhai'r Comisiynydd, gan achosi dryswch wrth bleidleisio. Amlygodd rhai ymatebwyr bryderon ynglŷn ag i ba raddau y byddai'r cyhoedd yn pleidleisio mewn etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau.
- Roedd cefnogaeth gref i ganiatáu i ymgeiswyr annibynnol sefyll am etholiad gyda rhai argymhellion ymarferol ynglŷn â sut y gellid ehangu amrywiaeth ymgeiswyr i adlewyrchu anghenion pobl leol. Roedd y rhain yn cynnwys gofyn i ymgeiswyr fyw o fewn ardal yr heddlu i gynrychioli cymunedau lleol, a chynnal cyfarfodydd lleol cyn etholiadau i nodi ymgeiswyr annibynnol posibl.
- Mynegodd ymatebwyr ystod o bryderon, yn cynnwys: gallu ymgeiswyr annibynnol i sefyll am etholiad o ystyried eu diffyg adnoddau a chefnogaeth ymarferol; y posibilïad y gallai ymgeiswyr diddordeb arbennig a phlaid leiafrifol fod yn llwyddiannus; a'r niwed y gallai hyn achosi i gysylltiadau cymunedol. Er mwyn deall anghenion cymunedau lleol yn wirioneddol ac i gael gwell amrywiaeth o ymgeiswyr amrywiol, fe nododd yr ymatebwyr angen i gael gwaed newydd er mwyn sicrhau fod gan y Comisiynwyr, eu timau cefnogol, a Phaneli'r Heddlu a Throseddau ehangder a dwyster dealltwriaeth i ddadlau dros anghenion pob cymuned.

### **Paneli'r Heddlu a Throseddau**

- Gofynnodd nifer o ymatebwyr am ragor o wybodaeth ynglŷn â sut fyddai Paneli'r Heddlu a Throseddau yn gweithredu, er enghraifft, manylion ar eu cyfansoddiad, sut fyddai penodiadau'n digwydd, ac unrhyw drefniadau i gefnogi'r Panel. Mynegwyd pryderon hefyd y gallai tensiwn ddatblygu rhwng y Panel a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau, yn arbennig ble roedd safbwyntiau gwleidyddol croes. Gellid lliniaru hyn trwy roi rôl statudol i'r Panel o ran gosod blaenoriaethau plismona strategol. Cwestiynodd ambell ymatebydd yr angen i Banel yr Heddlu a Throseddau ddatgan y byddai hyn yn gwanhau mecanwaith clir am yr atebolrwydd lleol uniongyrchol a gynigir gan rôl y Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau.

- Awgrymodd rhai ymatebwyr fod y Panel yr Heddlu a Throseddau newydd yn ymddangos i fod â'r un strwythur ag awdurdodau presennol yr heddlu dan enw arall. Fe fynegont bryderon y byddai aelodaeth y Panel yn dod yn bennaf o'r un gronfa o gynghorwyr a etholir yn lleol ac roeddynt yn awyddus i gael presenoldeb annibynnol hefyd.

### **Gwybodaeth a data**

- Cytunodd nifer sylweddol o ymatebwyr y dylai'r cyhoedd gael mynediad i ddata sy'n berthnasol, yn syml ac yn gyson, er mwyn iddynt allu beirniadu pa mor effeithiol mae eu Comisiynydd a heddlu yn perfformio. Fodd bynnag, nododd rhai y byddai'n anodd caniatáu cymariaethau lleol rhwng heddluoedd ac yn hanesyddol dros gyfnod o amser heb ddarparu ymagwedd safonol genedlaethol i gasglu a chyhoeddi data cyson.

### **Ymgysylltu â'r gymuned**

- Roedd cefnogaeth gref i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn ymgysylltu â chymunedau gyda nifer yn cydnabod y cysylltiadau da oedd eisoes wedi eu sefydlu gan heddluoedd ac awdurdodau'r heddlu. Mae ymatebwyr yn cydnabod fod hyn yn rhan hanfodol o rôl y Comisiynydd, ond roedd rhai yn pryderu ynglŷn ag i ba raddau y gellid cyflawni hyn ar lefel heddlu, yn arbennig o ystyried tirwedd ddaearyddol nifer o ardaloedd heddluoedd. Roedd awgrymiadau ynglŷn â sut i wella ymgysylltu â'r gymuned yn cynnwys cynnal meddygfeydd lleol, mynychu fforymau cymunedol y rhoddwyd cyhoeddusrwydd amlwg iddynt neu bresenoldeb gweladwy i'r Comisiynydd mewn digwyddiadau cymunedol allweddol.

### **Asedau a staff**

- Roedd ymatebwyr hefyd wedi gofyn am eglurder ar p'un ai Comisiynwyr neu brif gwnstablaid sy'n rheoli asedau corfforol a staff. Roedd rhai o'r farn fod atebolrwydd democrataidd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd fod â rheolaeth o adnoddau'r heddlu. Roedd eraill yn gweld y rhain fel rhan o gyfrifoldebau rheoli prif gwnstablaid na ddylid dal y Comisiynydd yn atebol amdanynt.
- Cwestiynodd nifer o ymatebwyr y cynnig i ganiatáu i brif gwnstablaid benodi'r uwch dîm. Teimlai nifer, o ystyried y lefel bresennol o amrywiaeth ymysg prif swyddogion, y gallai hyn fytholi'r drefn bresennol.

### **YMATEB Y LLYWODRAETH:**

#### **Rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau**

- 2.1 Am y tro cynaf erioed bydd y cyhoedd yn gallu pleidleisio'n uniongyrchol dros unigolyn i'w cynrychioli ar heddlu a throseddau, gan roi mwy o lais iddynt ar fesurau i leihau troseddau a gwella diogelwch cymunedol yn eu hardal. Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn eiriolwyr i'r cyhoedd

– yn ymdrechu i gyflawni'r gwasanaeth gorau i gymunedau yn y modd mwyaf cost effeithiol.

- 2.2 Lleiafrif o'r cyhoedd sy'n deall sut gallant ddal yr heddlu'n atebol ar hyn o bryd. Rydym eisiau newid hynny. Y Comisiynwyr fydd cynrychiolwyr y cyhoedd, wedi eu hethol ganddynt i ddal y prif gwnstabl a'r heddlu yn atebol am blismona yn eu hardal. Yn y bôn, bydd y cyhoedd yn ethol yr ymgeisydd y credant all eu cynrychioli'n effeithiol, ac a all leisio pryderon y gymuned. Trwy'r blwch pleidleisio, bydd y cyhoedd yn pennu pwy sydd yn y safle gorau i ymgymryd â'r rôl hanfodol hon. Mae hyn yn allweddol os ydym i roi gwir rym i bobl leol allu dylanwadu ar blismona yn eu gymunedau.
- 2.3 Mae'r Llywodraeth wedi bod yn glir na fydd annibyniaeth weithredol prif gwnstabliaid wedi ei beryglu. Bydd yr hen egwyddor o annibyniaeth weithredol, ble mae'r rhai sy'n gweithredu yn swyddfa'r cwnstabl yn gallu gwneud penderfyniadau annibynnol ar sut i ddefnyddio eu grymoedd cymhellol cyfreithiol ar ran y wladwriaeth, yn parhau i fod yn gonglfaen i fodel plismona Prydain. Rydym yn cytuno ag ACPO y byddai'n anghywir i ddiffinio annibyniaeth weithredol yn y Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol ond y byddai'n ddoeth i sefydlu mewn protocol beth yw'r egwyddorion ddylai helpu arwain y berthynas rhwng y Comisiynydd a'r prif gwnstabl.
- 2.4 Bydd y Llywodraeth yn gofyn i'r Comisiynydd a'r prif gwnstabl, ym mhob ardal heddlu, i ddatblygu a chytuno ar Gynllun yr Heddlu a Throseddau a fydd yn sefydlu sut i gyflawni blaenoriaethau'r heddlu. Bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn gallu sefydlu canllaw i gefnogi datblygiad y cynllun hwn.
- 2.5 Rydym yn glir fod y Comisiynwyr yno i ddarparu llywodraethu a her strategol i'r heddlu, ac nid i'w ficro reoli. Nhw sydd i benderfynu ar ba gefnogaeth fyddant ei angen i gyflawni eu rôl. Byddwn yn sicrhau er na fydd y ddeddfwriaeth yn sefydlu na fydd Comisiynwyr yn gallu dirprwyo cyfrifoldebau am swyddogaethau, y byddant yn gallu dirprwyo gweithgaredd sy'n helpu ei gyflawni.
- 2.6 Bydd gallu'r Comisiynydd i uno cynrychiolwyr o un Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol neu fwy ar lefel heddlu, yn ogystal â'r grym i ofyn am adroddiad gan Bartneriaeth ble ceir pryderon, yn helpu delio â materion diogelwch cymunedol ledled yr heddlu sydd wedi codi'n fynych gan y cyhoedd ond wedi parhau i effeithio ar gymunedau. I gefnogi'r Comisiynydd a phartneriaid lleol i daclo materion o'r fath, bydd y Comisiynydd yn gallu comisiynu gwasanaethau gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a darparwyd lleol eraill.
- 2.7 Nid yw'r Comisiynydd yn ddewis amgen i'r trefniadau statudol presennol ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Dan y trefniadau statudol hyn, bydd angen i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol barhau i gyflawni asesiad strategol a chynhyrchu cynllun partneriaeth, a bydd angen i bwyllgorau trosolwg a chraffu troseddau ac anrhefn awdurdodau lleol

barhau i graffu ar swyddogaeth eu Partneriaeth leol. Fodd bynnag, ni fyddwn yn ceisio dyblygu'r trefniadau presennol nac ychwanegu cymhlethdod na biwrocratiaeth i'r system bresennol. Er enghraifft, gallem ddisgwyl i'r cynghorwyr sy'n eistedd ar eu pwyllgorau trosolwg a chraffu lleol godi pryderon gyda'r cynghorwyr sy'n eistedd ar Banel yr Heddlu a Throseddau ble fo'n briodol.

- 2.8 Bydd y cyswllt rhwng y Comisiynydd, diogelwch cymunedol ac asiantaethau cyfiawnder troseddol yn arwyddocaol o ran cyflawni atebolrwydd lleol ac ymateb i farn a blaenoriaethau pobl. Bydd dyletswydd gilyddol i gydweithredu rhwng y Comisiynydd a phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol yn helpu galluogi dialog cynhwysfawr rhwng y Comisiynydd ac asiantaethau cyfiawnder troseddol, fel y bydd penderfyniadau pob partner ar flaenoriaethau a buddsoddiad yn rhoi ystyriaeth lawn i'r oblygiadau ehangach posibl. Ein gweledigaeth yw o System Gyfiawnder Troseddol gyda'r un nod a gwerthoedd. Bydd y ddyletswydd i gydweithredu yn caniatáu i asiantaethau sefydlu cytundeb lleol ystyrion ar sut y byddant yn cydweithio er lles cymunedau lleol.
- 2.9 Wrth gyfyngu ar ymyrraeth ganolog a biwrocratiaeth, rydym hefyd yn cydnabod yr angen i Lywodraeth ganolog ddargadw nifer fechan o rymoedd ar gyfer materion o bwys cenedlaethol. Felly byddwn yn darparu fframwaith clir ar gyfer Comisiynwyr lleol a'u heddluoedd, a sefydlir mewn Gofyniad Plismona Strategol newydd, y bydd angen i'r Comisiynwyr dalu sylw iddynt. Bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn parhau i allu ymyrryd os yw cyllideb heddlu wedi ei osod yn rhy isel ac yn bygwth diogelwch y cyhoedd; i ofyn i unrhyw Gomisiynydd ymgymryd i gytundeb perfformiad dros gyfrifoldebau plismona cenedlaethol a rhyngwladol; ac i ddynodi ambell swyddogaeth y bydd rhaid i bob heddlu berfformio trwy gydweithio â heddluoedd neu gyrff eraill.

## **Fforddiadwyedd**

- 2.10 Ar wahân i'r gost o gynnal etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, mae'r llywodraeth wedi bod yn glir na ddylai cost eu cyflwyniad fod yn fwy na'r trefniadau llywodraethu presennol dan awdurdodau'r heddlu. Rydym yn cyhoeddi rhagor o fanylion ar gostau i gyd-fynd â chyflwyniad y Mesur i'r Senedd. Mae'r Arolwg Gwario Cynhwysfawr wedi darparu eglurder pellach ar gyllido i dalu am etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ym Mai 2012 a byddwn yn cadw'r costau i isafswm trwy eu cysylltu ag etholiadau lleol ble bynnag fo'n bosibl. Mae manteision mandad democrataidd uniongyrchol, yn cynnwys yr ysgogiad cryf i ysgogi gwerth am arian, yn drech na'r costau atodol o gynnal etholiadau. Rydym hefyd yn disgwyl i'r Comisiynwyr gyflawni effeithlonrwydd am y byddant yn atebol i'r cyhoedd am yr arian a wariant a'r praesept maent yn godi.
- 2.11 Trwy gydol ein cynigion rydym wedi od yn glir iawn ynglŷn â'n bwriad i leihau biwrocratiaeth a chynyddu atebolrwydd lleol er mwyn sicrhau fod gan Gomisiynwyr a phrif gwnstabiliaid ddigon o rym i redeg plismona yn effeithiol ac effeithlon ar lefel heddlu. Yn hynny o beth, nid ydym yn

bwriadu rhagnodi pa gefnogaeth a ddylid ei ddarparu i'r Comisiynwyr, ac eithrio penodi pennaeth staff â thâl a prif swyddog ariannol. Bydd angen i'r Comisiynwyr fod yn dryloyw ynglŷn â'r lefel o gefnogaeth maent yn sefydlu, yn cynnwys cyhoeddi costau cyflogau eu staff, ac arddangos i'r cyhoedd sut maent yn gwneud y defnydd gorau o arian y cyhoedd. Os yw'r Comisiynwyr eisiau sefydlu trefniadau atodol, neu swyddogaeth gefnogaeth sylweddol, nhw fydd i benderfynu sut i wneud hyn ac felly i gyfiawnhau eu penderfyniadau a'r gost i'r etholaeth.

- 2.12 Er y bydd y Comisiynydd yn gallu penodi staff i'w cynghori a chynorthwyo, bydd yn rhaid penodi pob aelod o staff yn ôl teilyngdod a byddant yn swyddi gyda chyfyngiadau gwleidyddol. Ni fydd deiliaid swyddi gwleidyddol ac aelodau gweithredol o bartion yn gallu cael eu penodi i staff y Comisiynydd.
- 2.13 Rydym yn cytuno ag ymatebwyr y dylai cyflog y Comisiynydd fod yn gymesur i'w rolau a chyfrifoldebau ac y dylem gymryd camau i osgoi pecynnau tâl gormodol. Felly bydd tâl Comisiynydd wedi ei osod yn gyntaf gan y Llywodraeth yn dilyn argymhellion gan yr Uwch Gorff Arolygu Cyflogau.

## **Fetio**

- 2.14 Bydd Comisiynwyr wedi eu hethol yn ddemocrataidd. Nid ydym yn credu fod proses fetio yn briodol dan yr amgylchiadau hyn gan y byddai'n amharu ar hawl dinesydd i sefyll am etholiad. Rhaid i'r bobl gael mynegi eu barn yn hyn o beth. Rydym yn glir y bydd angen i Gomisiynwyr gytuno ar ddelio â gwybodaeth sensitif i gefnogi gallu Comisiynydd etholedig i ddal eu prif gwnstabl yn atebol ac i esbonio ac amddiffyn gweithredoedd yr heddlu i'w cymunedau lleol.
- 2.15 Fodd bynnag, byddwn yn sefydlu mesurau i sicrhau fod Comisiynwyr yn gwbl ymwybodol o'u hoblygiadau i ddiogelu unrhyw wybodaeth neu ddeunydd diogelwch y byddant yn dod i gysylltiad ag o. Byddwn yn gwneud hyn trwy ofyn i'r Comisiynwyr lofnodi dogfen ar eu penodi yn sefydlu eu hoblygiadau dan y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol.

## **Etholiadau**

- 2.16 Rydym yn awyddus i annog ymgeiswyr annibynnol i sefyll am etholiad ynghyd â'r ymgeiswyr hynny a gefnogir gan y prif bleidiau gwleidyddol. Mewn partneriaeth â'r Comisiwn Etholiadol, byddwn yn cychwyn ar raglen o weithgaredd sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o Gomisiynwyr i sicrhau y ceir cynulliad iach o etholwyr ac i annog ymgeiswyr annibynnol i gynrychioli eu cymunedau.
- 2.17 Bydd y cyhoedd yn penderfynu pwy fydd eu Comisiynydd a thrwy'r broses ddemocrataidd, mae'n anochel y bydd pleidiau gwleidyddol yn cyflwyno'r ymgeiswyr y credant all gynrychioli'r cymunedau orau. Rydym yn cefnogi hyn. Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r rhagolwg o ymgeiswyr amrywiol yn sefyll i'w hethol yn Gomisiynydd, p'un a ydynt yn sefyll fel ymgeisydd

annibynnol neu fel ymgeisydd yn cynrychioli un o'r prif bleidiau gwleidyddol. Fel llais i'r bobl ar faterion plismona lleol, bydd angen i'r Comisiynwyr sicrhau cefnogaeth eu cymunedau lleol i'w helpu i leihau troseddau a chadw eu strydoedd yn ddiogel. Dim ond trwy weithio gydag a gwranddo ar gymunedau amrywiol ledled ardal eu heddlu y byddant yn gallu gwneud hyn. Os nad yw'r Comisiynwyr yn cynrychioli barn eu cymunedau yn effeithiol bydd ganddynt, ar ddiwedd y dydd, y grym i ethol gwahanol Gomisiynydd trwy'r broses ddemocrataidd.

### **Paneli'r Heddlu a Throseddau**

- 2.18 Mae'r Llywodraeth yn glir y dylid cael craffu cyhoeddus o Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau gan Banel yr Heddlu a Throseddau o fewn ardal pob heddlu. Bydd y Panel yn craffu ar y Comisiynydd; a'r Comisiynydd yn ei dro yn craffu ar yr heddlu.
- 2.19 Bydd y Paneli yn cynnwys isafswm o 10 cynghorydd a 2 aelod annibynnol, yn dod o gynghorwyr a etholwyd yn lleol a chynrychiolwyr cymunedol o ystod o ardaloedd daearyddol amrywiol. Bydd gofyn i bob awdurdod lleol o fewn ardal heddlu anfon aelod etholedig i'r Panel. Bydd hyn yn cynnwys cynghorau haen uchaf a dosbarth; dyma fydd y tro cyntaf i gynghorau dosbarth gael dylanwad ffurfiol mewn llywodraethu plismona. Yn yr ardaloedd hynny sydd â llai na 10 o awdurdodau lleol, bydd gofyn i bob awdurdod anfon un aelod gan drafod llenwi'r seddi sy'n weddill yr awdurdodau sy'n aelodau. Bydd yn rhaid i'r 2 aelod annibynnol fod wedi eu lleoli yn ardal yr heddlu ond nid mewn swydd etholedig ac fe allant fod yn arbenigwyr yn eu maes neu ddod â gwybodaeth ac arbenigedd perthnasol.
- 2.20 Rydym yn glir na ddylai Panel yr Heddlu a Throseddau fod yn awdurdod heddlu amgen sy'n amharu ar atebolrwydd democrataidd a mandad y Comisiynydd na chreu biwrocratiaeth i'r heddlu. Fodd bynnag, credwn ei bod yn briodol i'r Panel allu craffu penderfyniadau allweddol yn effeithiol a byddwn yn dynodi y bydd gan y Panel rym fetu i atal penderfyniad Comisiynydd ar braesept a phenodiadau'r prif gwnstabl. Rydym yn glir mai'r Comisiynydd sy'n bennaf gyfrifol am y penderfyniadau hyn ac felly rydym wedi pennu fod angen cefnogaeth  $\frac{3}{4}$  aelodau'r Panel er mwyn i fetu fod yn llwyddiannus. Credwn mai anaml y defnyddir y grym i atal os o gwbl ond bod yn rhaid i'r heddlu gael eglurder ar ei gyllideb a phwy fydd yn ei arwain felly bydd gan yr Ysgrifennydd Cartref y grym i ddynodi, trwy Orchymyn, fanylion sut fydd y fetu yn gweithio yn yr achos prin pan na fydd y Comisiynydd a'r Panel yn gallu cytuno.
- 2.21 Ni fydd gan y Paneli'r Heddlu a Throseddau rymoedd fetu ar y gyllideb arfaethedig na Chynllun yr Heddlu a Throseddau, er y byddant yn darparu craffu cadarn yn y meysydd hyn. Byddwn yn sicrhau fod gan y Panel y gefnogaeth mae angen i gyflawni ei rôl craffu ac yn hynny o beth rydym yn gwneud darpariaeth i'r Paneli dderbyn cyllid i gyfarparu'r aelodaeth i graffu ar a herio'r Comisiynydd.



2.22 Bydd y Panel yn gallu gofyn i'r Comisiynydd ddarparu a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar lwyddiant Cynllun yr Heddlu a Throseddau ac i'w gynrychioli i gyfarfod cyhoeddus o'r Panel, ac ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt. Mewn ymateb, bydd y Panel yn darparu unrhyw ymateb ffurfiol i'r Comisiynydd a bydd yn rhaid iddo ef neu hi ei ystyried wrth lunio cynnwys y Cynllun ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Mae gan y Panel hefyd y dewis i gyfeirio at Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) os dânt i'r casgliad fod achos i'w ateb parthed camymddygiad. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn cydnabod fod yn rhaid i'r system gwynion fod yn ddigon hyblyg i ddelio â chwynion mewn modd mwy anffurfiol a llai biwrocraataidd, er enghraifft, trwy gyfryngu neu gyflafareddu, ac wedi ei deilwra i'r hyn mae'r cyhoedd ei eisiau ac angen. Byddwn felly'n edrych ar ailffocysu rôl yr IPCC i ryddhau adnoddau a chaniatáu mwy o hyblygrwydd i ddelio â chwynion yn y dyfodol. Byddwn yn ystyried yr opsiynau i adalw Comisiynwyr o ganlyniad i adalw ASau, wedi iddynt gael eu llunio yn y flwyddyn nesaf.

### **Penodi a diswyddo prif gwnstabiliaid**

2.23 Rydym yn bwriadu rhoi'r grym i Gomisiynwyr benodi prif gwnstabiliaid. Bydd rôl allweddol i Banel yr Heddlu a Throseddau a fydd yn cynnal gwrandawiadau cadarnhau cyhoeddus a bydd yn rhaid iddynt roi gwybod eu barn i'r Comisiynydd o fewn 3 wythnos i dderbyn hysbysiad. Fe y sefydlwyd uchod, bydd gan y Panel y grym o feto ar y penderfyniad, ond fel arall, rydym yn disgwyl i'r penodiad gael ei gadarnhau o fewn 3 wythnos i hysbysu'r Panel.

2.24 Rydym yn bwriadu rhoi'r grym i Gomisiynwyr ddiswyddo prif gwnstabiliaid. I wneud hynny, bydd angen iddynt hysbysu'r Panel a darparu esboniad i'r prif gwnstabl a chaniatáu iddynt gyflwyno sylwadau perthnasol. Bydd y Panel yn gallu craffu ar y penderfyniad, gan gynnwys ceisio barn Prif Arolygydd Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi, ond Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau sy'n gyfrifol am gadarnhau'r penderfyniad (neu beidio).

### **Gwybodaeth a data**

2.25 Rydym yn croesawu'r pwysigrwydd a osododd ymatebwyr ar argaeledd data i helpu'r cyhoedd i ddeall perfformiad eu heddlu a'r Comisiynydd. Rydym wedi gwrandao ar farn ymatebwyr a byddwn yn deddfu i sicrhau fod gan gymunedau fynediad i wybodaeth allweddol ar blismona, troseddau ac anrhefn. Rydym yn bwriadu i'r HMIC chwarae rôl allweddol o ran sicrhau y gallwn fod yn hyderus o'r data, gan gynnwys gwybodaeth gymharol, mae'r cyhoedd yn defnyddio i ddod i'w barn ar eu heddlu a Chomisiynydd.

2.26 Rydym eisiau rhoi mynediad i'r cyhoedd i wybodaeth allweddol ar droseddau a'r heddlu yn y modd byddant ei eisiau ac y byddant yn ei ddefnyddio, p'un ai i ddal eu Comisiynydd yn atebol, codi mater mewn

cyfarfod bîd lleol, neu gymryd rhan weithredol mewn taclo troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol eu hunain. O Ionawr 2011, byddwn yn rhoi mynediad i'r cyhoedd i isafswm llwyfan o wybodaeth yn cynnwys data troseddau lefel stryd a mapiau a gwybodaeth ar eu tîm plismona cymdogaeth a'r cyfarfod bîd nesaf.

- 2.27 Rydym yn glir mai dim ond dechrau'r gwaith i wneud gweithredu ar droseddu a phlismona dydd i ddydd yn fwy tryloyw yw hyn. Byddwn yn adeiladu ar hyn gydag amser, gan weithio gyda chymunedau, gwasanaethau lleol, mentrwy'r ac arloeswyr i ddarparu'r cyhoedd â gwybodaeth ystyrlon a chymharol ar droseddau a phlismona yn eu hardal a'u grymuso i gael gwell dealltwriaeth a chyfrannu i waith asiantaethau cyfiawnder troseddol a gwasanaethau lleol eraill.

### **Ymgysylltu â'r gymuned**

- 2.28 Rydym yn disgwyl y bydd y Comisiynwyr eisiau defnyddio'r rhwydweithiau a sianelau presennol sydd eisoes ar gael ar lefel heddlu i ymgysylltu â'r cyhoedd. Byddant hefyd eisiau ystyried dulliau newydd ac arloesol o gyffwrdd cymunedau – gan edrych yn arbennig ar sut y gall technoleg newydd eu helpu i gadw mewn cysylltiad â'r bobl maent yn cynrychioli. Bydd hyn yn rôl allweddol i'r Comisiynwyr, a fydd angen bod yn weladwy a rhagweithiol os ydynt am wrando a gweithredu ar anghenion eu cymunedau yn effeithiol.

### **Asedau a staff**

- 2.29 Bydd gwahaniaeth clir rhwng cyfrifoldebau Comisiynwyr a phrif gwnstabiliaid er mwyn cefnogi anghenion strategol a gweithredol yr heddlu. Bydd y Comisiynydd yn parhau i fod yn berchen ar asedau eu heddlu, tra'n dirprwyo rheolaeth dydd i ddydd i'r prif gwnstabl. Yn ei dro, bydd gan y prif gwnstabl fwy o ryddid proffesiynol nag yn y gorffennol, gan gyflogi staff yr heddlu'n uniongyrchol.

### **Llundain**

- 2.30 Yn Llundain, mae'r cyhoedd eisoes yn ethol unigolyn sy'n arolygu materion ledled Llundain; sef Maer Llundain. Bydd y Maer, gydag arolygiaeth a chraffu gan Gynulliad Llundain, yn parhau i fod yn gyfrifol am gyllideb yr heddlu, gan osod y cynllun plismona a dal Comisiynydd Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitan (MPS) (uwch swyddog yr heddlu) yn atebol am gyflenwi plismona i bobl Llundain.

- 2.31 Rydym yn bwriadu creu corff swyddogaethol o'r GLA o'r enw Swyddfa Heddlu a Throseddu'r Maer, a fydd yn berchen ar asedau'r MPS ac yn dal cyllideb yr heddlu. Bydd y Maer yn gyfrifol am y swydd hon yn rhan o'i ddyletswyddau fel Maer. Bydd y Maer yn gallu penodi a dirprwyo i Ddirprwy Faer yr Heddlu a Throseddau, a fydd yn gallu cyflawni swyddogaethau'r Maer, ond y Maer fydd yn bennaf gyfrifol. Bydd Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid a benodir gan swyddogion gweithredol y GLA yn cefnogi'r Maer.

- 2.32 Bydd Cynulliad Llundain yn ffurfio pwyllgor a fydd yn gweithredu fel Panel yr Heddlu a Throseddau i'r Maer. Bydd ei gyfansoddiad yn ôl doethineb Cynulliad Llundain a fydd yn parhau i fod â'r grym i wrthod, trwy fwyafrif o ddau draean, cynigion ar gyfer cyfanswm cyllid i'w glustnodi ar gyfer plismona.
- 2.33 O ganlyniad i natur genedlaethol a rhyngwladol gwaith yr MPS, bydd Comisiynydd a Dirprwy Gomisiynydd yr MPS yn parhau i gael eu penodi gan y Frenhines wedi ei chynghori gan yr Ysgrifennydd Cartref ac ar argymhelliad y Maer. Yn unol â'r cynigion ar gyfer heddluoedd eraill, bydd Comisiynydd yr Heddlu Metropolitan yn penodi Comisiynwyr Cynorthwyol, Dirprwy Gomisiynwyr Cynorthwyol a Chomandariaid yn y dyfodol. Ym mhob agwedd arall, bydd gan y Maer holl rymoedd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a bydd gan Gynulliad Llundain holl rymoedd Panel yr Heddlu a Throseddau, gyda'r eithriadau na fydd ganddynt rôl mewn penodiadau uwch neu brif swyddogion ac ni fydd eu rôl bresennol mewn craffu ar y gyllideb yn newid.

## **Cymru**

- 2.34 Byddwn yn sicrhau fod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau wedi eu cyfarparu i berfformio eu rôl yng Nghymru fel yn Lloegr. Tra bod plismona yn parhau i fod yn gyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Cartref, mae gan swyddogaethau a grymoedd Comisiynwyr oblygiadau o ran cyfrifoldebau datganoledig a heb eu datganoli. Felly byddwn yn gweithio o fewn amodau'r Setliad Datganoli i sicrhau fod y fframwaith y bydd Comisiynwyr etholedig pedwar heddlu Cymru yn gweithredu yn gweithredu ynddi yn ystyried cyfrifoldebau datganoledig.
- 2.35 Rydym wedi cytuno y bydd gweinidog Cymreig, aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol, wedi ei benodi i bob Panel yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru fel cynrychiolydd o Lywodraeth y Cynulliad. Ni fydd San Steffan yn chwarae unrhyw ran mewn pennu mecanwaith penodi ac eithrio i bennu y dylai'r unigolyn a ddewisir fod â mandad etholedig fel cynrychiolydd lleol, rhanbarthol neu genedlaethol a bod etholwyr eu ward, etholaeth neu ranbarth yn dod yn uniongyrchol neu'n rhannol o ardal heddlu'r Panel y byddant yn cael ei benodi iddo. Ni fydd y Mesur yn ceisio amrywio gallu'r Panel i godi na lleihau'r praesept yng Nghymru, ond na fydd ychwaith yn amrywio gallu presennol Llywodraeth y Cynulliad i gapio'r praesept yn ardal heddlu. Bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn dal i feddu ar y grym i osod isafswm cyllideb heddlu os yw'r Comisiynydd yn bwriadu gosod praesept sydd mor isel fel ei fod yn peryglu diogelwch y cyhoedd.

## **Trefniadau trosiant**

- 2.36 Byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid plismona i sicrhau fod y cam trosiant o awdurdodau heddlu i Gomisiynwyr mor llyfn â phosibl i bawb. Byddwn yn datblygu rhaglen drosiant gynhwysfawr gyda phartneriaid yn yr wythnosau i ddod. Byddwn yn trosglwyddo ymrwymïadau cyflogaeth

presennol gyda phrif weithredwyr, swyddogion cyllid a'r unigolion hynny yn gweithio i awdurdodau'r heddlu a fydd, dan reolaeth y Comisiynydd, yn helpu darparu dilyniant pwysig yn eu dyddiau cynnar. Yna bydd angen i'r Comisiynydd ailstrwythuro a diwygio ei dîm fel y gwêl yn briodol.

- 2.37 Byddwn yn parhau i drafod â'n partneriaid newydd sut y gellir cynnal a datblygu cyrff cynrychiadol wedi 2010 i helpu sicrhau llais cyson ac effeithiol i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ar faterion cenedlaethol a thrawsffiniol.

## **Pennod 3: Diddymu atebolrwydd biwrocraidaidd**

### **EIN GWELEDIGAETH**

Amnewid atebolrwydd biwrocraidaidd ag atebolrwydd democrataidd. Rydym am i swyddogion yr heddlu ganolbwyntio ar waith heddlu nid gwaith papur. Fe gyflawnir hyn trwy roi diwedd i ymyrraeth o San Steffan mewn plismona, lleihau biwrocraitiaeth a hyrwyddo arfer barn, a sicrhau fod arweinyddion y gwasanaeth yn cymryd cyfrifoldeb dros gadw biwrocraitiaeth i isafswm.

### **ADBORTH O'R YMGYNGHORIAD**

#### **Achosion biwrocraitiaeth a datrysiadau posibl**

- Nododd nifer o ymatebwyr fod cofnodi troseddau wedi dod yn dasg rhy gymhleth ac wedi arwain at reolau cyfrif 'gwrthnysig'. Er enghraifft, awgrymwyd fod rhai swyddogion yr heddlu yn amharod i ddsbarthu troseddau fel troseddau treisgar oherwydd yr effaith allai hyn gael ar ystadegau troseddau a pherfformiad. Felly roedd cefnogaeth gref o blaid arolwg o gofnodi troseddau gyda'r bwriad o ailddosbarthu nifer o gategoriâu o droseddau lefel isel, darparu swyddogion â'r gallu i arfer eu barn, ac ymagwedd synnwyr cyffredin i gofnodi digwyddiadau.
- Roedd cefnogaeth tuag at gael gwared ar y ffurflen atal, ond amlygodd rhai'r angen am fesurau diogelwch trwy ymwybyddiaeth o effaith anghymesur posibl ar bobl o gymunedau ethnig lleiafrifol.
- Dywedodd rhaid ymatebwyr fod angen arolwg llawn o'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio am nad yw'r llwyth gwaith yn y maes hwn yn gyfrannol i'r math o benderfyniad a wneir, yn arbennig parthed gwaith papur ceisiadau. Dywedodd rhai bod angen ailosod lefelau awdurdod caeth presennol i ystyried difrifoldeb a risg penodol.
- Ar y System Cyfiawnder Troseddol, soniwyd fod ffeiliau llysoedd yn dal i fod yn rhy fiwrocraidaidd, hyd yn oed ar gyfer troseddau syml. Cafwyd sawl awgrym i gynyddu gwarediadau tu allan i'r llys, megis y cynlluniau cyfiawnder adferol, a dychwelyd penderfyniadau cyhuddo at yr heddlu.
- Roedd cefnogaeth i arolwg o arferion iechyd a diogelwch i alluogi ymagwedd synnwyr cyffredin i blismona, yn hytrach nag asesiadau risg biwrocraidaidd, a gefnogir gan arweinyddiaeth gref yn y gwasanaeth.
- Roedd sawl un yn galw am systemau TG mwy effeithiol, sy'n fwy hyblyg na manylebau'r cyflenwyr, yn atal dyblygiad o waith papur trwy dechnoleg integredig, ac o bosibl yn gyd-ddibynnol ledled heddluoedd.
- Er bod cefnogaeth gadarn i leihad y Llywodraeth o dargedau a rheoli perfformiad o'r canol, fe honnodd nifer o ymatebwyr fod yna lefel uchel o feichiau dangosyddion a rheoli perfformiad lleol oddi fry. Mae'n faich i

gofnodi, dadansoddi a chyfathrebu amrywiol fathau o wybodaeth perfformiad, ac mai ar leihau niwed a risg y dylai'r ffocws fod.

- Galwodd eraill am leihad mewn biwrocratiaeth adnoddau dynol, yn cynnwys Fframwaith Cymhwyster Craidd mwy cryno a lleihau hyd y system gwerthusiad blynyddol Arolwg Datblygiad Perfformiad i ganolbwyntio ar faterion perfformiad craidd.
- Dywedodd rhai ymatebwyr fod adnoddau'r heddlu yn cael eu hystyngiadau nifer o fyrddau partneriaeth ac yn rhai ardaloedd fod graddau ymdrechion yr heddlu yn anghymharol iawn o gymharu ag asiantaethau eraill.
- Awgrymodd rhai sefydliadau plismona fod yna ymagwedd anghymharus i bobl ar goll, gyda phob adroddiad yn cael ei drin fel dynladdiad posibl. Awgrymwyd y dylai ymchwiliadau gynnwys penderfyniadau seiliedig ar risg cymesur, gan bwysleisio rôl yr heddlu o atal niwed, yn hytrach nag ymagwedd unffurf.
- Dywedodd rhai ymatebwyr fod archwiliad yn seiliedig ar berfformiad yn erbyn targedau wedi creu diwylliant o fiwrocratiaeth mewn heddluoedd i brofi perfformiad i arolygiaethau.
- Mae diwylliant o osgoi risg wedi datblygu o ganlyniad i asesiadau risg biwrocraidd ar gyfer nifer o feysydd o waith heddlu a dogfennaeth ormodol. Mae hyn wedi arwain at blismona gwrth risg sy'n effeithio ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd.

### **Gwybodaeth leol**

- Mynegodd nifer y farn nad yw'r cyhoedd o reidrwydd yn ymddiried yn na'n defnyddio ystadegau troseddau sydd ar gael i'r cyhoedd ac y dylid defnyddio mathau eraill o wybodaeth leol, megis briffio ar y stryd a chyfarfodydd cymunedol. Mae'n bwysig sefydlu gan y cyhoedd yn union pa wybodaeth maent ei eisiau. Ble defnyddir data, dylai fod yn gyson i ganiatáu cymariaethau ledled cyfnodau rhesymol. Roedd rhywfaint o bryder ynglŷn â sut i atal Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau rhag gosod gofynion am feichiau data atodol ar heddluoedd.

### **HMIC ac ACPO**

- Roedd cefnogaeth i ddiwygio rôl yr HMIC, ac awydd am annibyniaeth bellach i HMIC o'r llywodraeth a'r heddlu. Dywedodd nifer o ymatebwyr y dylai model archwilio newydd fod yn seiliedig ar asesiad o risg a niwed, gan ganolbwyntio ar ansawdd a gwerth am arian data, gan sylweddoli fod nifer o swyddogaethau plismona yn ansoddol yn hytrach na meintiol, felly dylai edrych ar weithgaredd datrys problemau fod yn fuddiol.
- Roedd awgrym fod rheoli gormodol o berfformiad mewn rhai heddluoedd gan gydnabod gweithgaredd ar 'gyfrif' ond nid am 'ddatrys' digwyddiadau, ac felly fod angen i ACPO cefnogi newid yn y diwylliant hwn.

- Dywedodd rhai bod diwylliant wedi ei arwain gan dargedau a'i drwytho mewn canllawiau ymysg yr heddlu yn golygu fod swyddogion wedi ymbellhau ymhellach oddi wrth y cyhoedd. Mae angen rhywfaint o ganllaw ar ACPO ond dylid ei gyfyngu a'i ffocysu ar athrawiaeth graidd, a dylid ei ddefnyddio i gefnogi dulliau eraill o newid diwylliant.

## **Rhannu gwybodaeth**

- Awgrymodd ymatebion gan sefydliadau plismona fod yna eisoes rhywfaint o systemau rhannu gwybodaeth yn bodoli, megis POLKA (Ardal Wybodaeth Ar-lein yr Heddlu) yr Asiantaeth Gwella Plismona Cenedlaethol, sy'n darparu gwybodaeth yn cynnwys pynciau arbenigol a risg uchel. Fodd bynnag, gellid gwella ymwybyddiaeth a defnydd o'r systemau hyn ledled heddluoedd.
- Bydd arferion da o ran hyfforddi'r heddlu yn bwysig yn y dyfodol ble mae newidiadau allai fod yn arwyddocaol i ddiwylliant plismona, megis dychwelyd rhai penderfyniadau i gyhuddo at yr heddlu. Fodd bynnag, roedd angen cael dull o ddarparu hyfforddiant targedig, i'r bobl briodol, gan y bobl briodol, ar y materion priodol, ar y costau priodol, i arbed rhoi gormod o amser ac adnoddau tuag at hyfforddiant maith.

## **YMATEB Y LLYWODRAETH:**

### **Lleihau biwrocratiaeth**

- 3.1 Mae'r Swyddfa Gartref yn cymryd mesurau positif i leihau cyfundrefn archwilio a thargedau'r heddlu. Rydym yn gweithio i leihau rheolaeth perfformiad canolog a'r gofynion data a osodir ar heddluoedd er mwyn rhyddhau'r heddlu i ganolbwyntio ar flaenoriaethau lleol. Fe wnaethom ymroddiad cryf i ddiddymu targedau canolog, sy'n amlwg yn y terfyniad o'r Addewid Plismona a'r targed canolog o hyder y cyhoedd.
- 3.2 Ynghyd â hyn, bydd yr Aseiad o Blismona a Diogelwch Cymunedol yn cael ei ddiddymu. Bydd hyn yn ein galluogi i nodi dechrau o'r newydd gyda gwasanaeth yr heddlu parthed perfformiad plismona ac yn ein galluogi i ddatblygu trefniadau newydd i'w datblygu sy'n bodloni anghenion cryfhau atebolrwydd lleol orau, gan ddiddymu cyfarwyddyd diangen o'r canol a chefnogi arfer barn broffesiynol. Rydym hefyd wedi arolygu ceisiadau data a gyflwynwyd gan y 'canol' i'r heddlu a byddwn yn parhau i wneud hyn yn flynyddol i sicrhau eu bod yn dal i fodloni'n anghenion wrth i'r trefniadau archwilio ac atebolrwydd ddatblygu.
- 3.3 Yn rhan o'u gwaith ar leihau biwrocratiaeth, rydym wedi gofyn i HMIC arolygu effaith rheolau cyfrif y Swyddfa Gartref ar gofnodi troseddau. Gan weithio gydag ACPO, rydym eisiau cael gwell dealltwriaeth o ble mae'r baich biwrocraidd yn y broses er mwyn lleihau'r baich ar heddluoedd tra'n sicrhau fod data cymharol ar gael i'r cyhoedd fel eu bod yn cael dealltwriaeth wirioneddol o'r lefel o droseddau yn eu hardal leol.

- 3.4 Rydym hefyd yn gobeithio lleihau biwrocratiaeth i'r heddlu ledled y system cyfiawnder troseddol. Mae'r heddlu yn cydweithio ag asiantaethau eraill, yn cynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron a Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (HMCS) i nodi'r dulliau mwyaf effeithlon i brosesu achosion, i leihau maint ffeiliau achos, ac arbed amser, trwy brosesau symlach. Rydym hefyd yn profi'r cysyniad o dimau erlyn integredig ble fo'r heddlu a'r CPS yn cydweithio mewn timau i ddiddymu dyblygiad ymdrech gydag un ffeil achos.
- 3.5 Rydym eisiau rhoi'r gallu i wneud penderfyniadau yn ôl yn nwylo'r rhai sy'n gwybod orau, y swyddogion ar flaen y gad. Felly byddwn yn cefnogi swyddogion i arfer eu barn broffesiynol parthed beth yw'r ffordd orau o ddelio â throseddau a digwyddiadau.
- 3.6 Rhaid i swyddogion yr heddlu allu gwneud penderfyniadau allweddol. Er enghraifft, nododd nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad fod yr heddlu'n gwastraffu llawer gormod o amser yn paratoi ffeiliau achos ar gyfer achosion gweddol syml ac yn aros i Wasanaeth Erlyn y Goron wneud penderfyniad. Un cwyn cyffredin a grybwyllir gan swyddogion yr heddlu yw'r nifer o ddyddiau maent yn treulio yn y llys, ac eto ni alwir arnynt i ddarparu tystiolaeth ar unrhyw adeg. Dyma pryd y dylent fod allan ar y strydoedd.
- 3.7 Oherwydd hyn fe gynhaliom gynllun peilot i edrych ar ddychwelyd penderfyniadau cyhuddo at yr heddlu ar gyfer achosion mwy cyffredin. Cynhaliwyd y cynlluniau peilot hyn gan ACPO a'r CPS yn Essex, Llundain, Swydd Stafford, Thames Valley a Gorllewin Swydd Efrog. Roedd y canlyniadau yn galonogol gan ddangos fod oddeutu 90% o benderfyniadau'r heddlu'r rhai cywir. Yn seiliedig ar gryfder y llwyddiant hwn, rydym bellach yn ymestyn yr ymagwedd hon yn genedlaethol a hefyd yn mynd i lansio ail gam peilot i archwilio'r potensial ar gyfer ymestyn y mathau o droseddau ble gall yr heddlu wneud y penderfyniadau hyn ymhellach, megis mewn achosion o siopladrad.
- 3.8 Byddwn hefyd yn gweithredu i leihau baich gwaith papur. Rydym yn edrych ar y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio a Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol i leihau biwrocratiaeth ddiangen ar gyfer heddluoedd. Fel cam cyntaf pwysig, rydym wedi gosod gorchymyn gerbron y Senedd a fydd yn darparu ar gyfer cael gwared ar y ffurflen Atal ac Adrodd yn llwyr a bydd yn lleihau'r broses recordio Stopio a Chwilio. Bydd y newidiadau hyn yn dod i rym flwyddyn nesaf ac mewn cyfuniad yn arbed hyd at 800,000 o oriau o amser yr heddlu'r flwyddyn, y gellir eu hailffocysu ar ddelio â blaenoriaethau lleol.
- 3.9 Rydym yn cydnabod fod yna gwmpas i leihau gwaith papur sy'n gysylltiedig â phrosesau Adnoddau Dynol. I'r perwyl hwn, mae fframwaith cymhwyster newydd yn cael ei gyflwyno yn 2011 a fydd yn symleiddio'r broses Arolwg Datblygiad Perfformiad i swyddogion yr heddlu.
- 3.10 Mae hefyd yn bwysig y gall swyddogion yr heddlu weithredu yn ddiwyll, heb gael eu llesteirio nac atal rhag diogelu'r cyhoedd gan ddehongliadau



amhriodol o reolau iechyd a diogelwch. Fe gyhoeddodd yr Arglwydd Young o Graffam ei adroddiad, *Synnwyr Cyffredin, Diogelwch Cyffredin*, ar 15 Hydref 2010. Rydym yn cytuno mewn egwyddor â'i argymhelliad na ddylai swyddogion yr heddlu fod mewn perygl o ymchwiliad neu erlyniad dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch wrth gyflawni eu dyletswyddau os ydynt yn rhoi eu hunain dan risg o ganlyniad i gyflawni gweithred arwrol. Rydym hefyd wedi cytuno i weithio gyda'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch, ACPO a Gwasanaeth Erlyn y Goron i ystyried canllawiau pellach i roi hyn ar waith. Bydd y canllaw wedi ei gwblhau erbyn 2011.

### **Y model archwilio newydd**

- 3.11 Mae HMIC wedi derbyn y dasg o ddatblygu eu trefniadau monitro cyffyrddiad ysgafn a rhaglen archwilio seiliedig ar risg. Bydd hyn yn galluogi'r Arolygiaeth i gyflawni ei rôl bwysig wrth roi goleuni ar berfformiad o'r cyhoedd tra hefyd yn lleihau'r baich o archwilio ar heddluoedd. Bydd HMIC yn dod â chynigion ymlaen maes o law ar gyfer sut fyddant yn monitro perfformiad yr heddlu yn y dyfodol.
- 3.12 Yn ogystal, bydd archwiliadau awdurdodau heddlu ac archwiliadau gwerth am arian heddluoedd yn cael eu cyfuno er mwyn diddymu dyblygiad gweithgaredd ledled rhaglenni archwilio ac uchafu manteision cost. Mae'r nifer o sefydliadau a chyrrff rheoleiddio sydd wedi gosod gofynion ar yr heddlu wedi cynyddu ac arallgyfeirio adnoddau'r heddlu oddi wrth wasanaethu'r cyhoedd, felly rydym yn cynnig gwneud HMIC yn borth ar gyfer pob archwiliad gan yr heddlu i helpu cydlynu a rheoli effaith ar heddluoedd.
- 3.13 Rydym wedi gweithio'n agos gyda HMIC ar eu trefniadau ar gyfer perfformiad ac archwilio yn y dyfodol a sicrhau tra'n bod yn cwtdogi ar eu hôl troed rheoleiddiol ar blismona fod ganddynt rymoedd i weithredu fel rheolydd effeithiol pan gyflwynir Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ym Mai 2010. Yn hyn o beth, rydym yn bwriadu deddfu i roi grymoedd i HMIC gael mynediad i eiddo ac i gael mynediad at wybodaeth i'w galluogi i wneud eu gwaith yn briodol.
- 3.14 Roeddem yn falch i weld fod ymatebwyr yn cefnogi ein penderfyniad i sicrhau fod HMIC yn rheolydd mwy annibynnol ac yn credu y byddai hyn yn dod yn fwy pwysig wrth i ni gyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau. Rydym yn bwriadu deddfu i sicrhau mai prif ddyletswydd HMIC yw gweithredu fel prif gynghorydd i'r Ysgrifennydd Cartref. Yn hytrach, fe ddylai HMIC archwilio ac adrodd ar ran y cyhoedd a dylid darparu pob adroddiad a chynghor i'r cyhoedd yn amodol i eithriadau diogelwch cenedlaethol a thebyg. Yn ogystal, rhaid i'r arolygiaeth fod dan ddyletswydd i gynhyrchu adroddiad blynyddol ar gyflwr plismona yn genedlaethol unwaith y flwyddyn i'r cyhoedd ac/neu'r Senedd.
- 3.15 Tra bydd holl waith HMIC ar gael i'r cyhoedd (yn amodol i ystyriaethau diogelwch cenedlaethol), bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, Panel yr Heddlu a Throseddau lleol a'r Ysgrifennydd Cartref oll yn dderbynyddion allweddol o waith archwilio craidd HMIC. Fe all yr

Ysgrifennydd Cartref gyfeirio'r Arolygiaeth ble fo'n fater o ddiddordeb cenedlaethol ac rydym yn bwriadu cadw grym atal i'r Ysgrifennydd Cartref allu gofyn i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau gynhyrchu cynllun gweithredu a gweithredu mewn ymateb i adroddiad neu gyngor gan yr HMIC sy'n amlygu methiannau sy'n dal heb eu datrys. Yn ogystal ag archwiliadau arfaethedig i'r HMIC, bydd y Comisiynydd hefyd â'r grym i ofyn i HMIC archwilio eu heddlu a bydd disgwyl i'r Comisiynydd dalu am archwiliad o'r fath.

### **Arweinyddiaeth gan y gwasanaeth**

- 3.16 Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar i Jan Berry, sydd bellach wedi cwblhau ei swydd fel Eiriolydd Lleihau Biwrocratiaeth Annibynnol ac fe gyhoeddwyd ei harddodiad terfynol ar 18 Hydref 2010. Ymysg y pethau eraill mae'r adroddiad yn amlygu mae pwysigrwydd arweinyddiaeth yn y maes hwn. Daeth i'r casgliad fod yn rhaid i ACPO, gyda chefnogaeth y Llywodraeth a phartneriaid eraill, gymryd cyfrifoldeb am gyflawni'r newid angenrheidiol a darparu'r hinsawdd a diwylliant ble gellir lleihau biwrocratiaeth ddiangen.
- 3.17 Rydym yn cydweithio'n agos ag ACPO i ddatblygu eu rôl fel arweinyddiaeth broffesiynol gwasanaeth yr heddlu ac yn arddangos arweinyddiaeth gref o ran hyrwyddo mwy o arfer barn broffesiynol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda nhw i edrych ar sut y gall heddluoedd weithio'n fwy effeithiol gyda phartneriaid lleol eraill. Bydd hyn yn edrych ar resymoli biwrocratiaeth a grëwyd gan gydweithrediad partneriaeth, er enghraifft, trwy gyfarfodydd partneriaeth gyda mwy o ffocws, gan sicrhau eu bod yn ychwanegu gwerth i waith heddlu a diogelwch y cyhoedd.
- 3.18 Er mwyn sicrhau fod y Llywodraeth yn ymateb i adroddiadau diweddar ar fiwrocratiaeth ac yn cydlynu ymagwedd strategol i'r amrywiol ffrydiau gwaith ar leihau biwrocratiaeth, rydym wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen Lleihau Biwrocratiaeth a arweinir gan y gwasanaeth. Bydd ACPO yn cadeirio'r Bwrdd hwn gydag aelodaeth o bartneriaid plismona allweddol, yn cynnwys HMIC, NPIA a Chymdeithas Awdurdodau'r Heddlu. Mae gan y grŵp hwn gyfrifoldeb i sicrhau fod blaenoriaethau allweddol ar leihau biwrocratiaeth yn cael eu dwyn ymlaen yn effeithiol a byddant yn gwneud hyn trwy wrando ar swyddogion yr heddlu rheng flaen, herio llunwyr polisi ac ymarferwyr, ac adrodd i Weinidogion ar gynnydd a'r rhaglen.

## **Pennod 4: Fframwaith cenedlaethol ar gyfer plismona lleol effeithiol**

### **EIN GWELEDIGAETH**

Gwasanaeth yr heddlu sy'n cydweithio i wella gwerth am arian i'r trethdalwr. Bydd gennym blismona lleol effeithiol ac effeithlon sy'n fwy gweladwy ac ar gael i'r cyhoedd gyda mwy o gydweithredu a chydlynu cenedlaethol ar gyfer swyddogaethau heddlu nad ydynt yn lleol ble fo er lles y gwasanaeth a'r cyhoedd i wneud hynny.

Ymateb gwell i droseddau cyfundrefnol gan y rhai sy'n gorfodi'r gyfraith trwy ymagwedd fwy rhesymegol a chydlynol wrth greu corff newydd grymus o frwydrwyr troseddau gweithredol ar ffurf Asiantaeth Droseddau Genedlaethol. Bydd yr NIPA yn cael ei ddiddymu'n raddol, gan arolygu ei swyddogaethau i bennu p'un a oes eu hangen o hyd ac, os felly, ble a sut fyddai'r man gorau i'w cyflenwi.

Mae arweinyddiaeth effeithiol yn hanfodol i gyflenwi gwasanaeth proffesiynol i'r cyhoedd, darparu cyfeiriad, gosod safonau i heddluoedd a hysbysu datblygiad cymwysterau arweinyddiaeth.

### **ADBORTH O'R YMGYNGHORIAD**

- Roedd cefnogaeth gref i'r egwyddor a amlinellwyd yn y papur ymgynghori o warchod y llinyn euraidd o blismona, ac i gynnal 'integreiddiad llorweddol' heddluoedd.
- Roedd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr yn cefnogi camau i gryfhau ac ehangu cydweithrediad rhwng heddluoedd ledled gwasanaethau plismona 'nad ydynt yn lleol', yn benodol ble mae gwasanaethau naill ai'n arbenigol, cost uchel ac/neu alw isel, neu mewn ymateb i fygythiadau a throreddolrwydd sy'n croesi ffiniau daearyddol. Fe welwyd fod hyn er lles cyflenwi gwasanaethau mwy effeithiol (ar swyddogaethau cefnogaeth busnes 'swyddfa gefn' a gwasanaethau cefnogaeth gweithredol) ac i gyflenwi gwasanaethau amddiffynnol (megis gwrthderfysgaeth, plismona troseddau cyfundrefnol, troseddau difrifol, trefn gyhoeddus a drylliau), yn ogystal â gwasanaethau arbenigol eraill megis twyll, troseddau ariannol ac e-droseddau yn fwy effeithiol.
- Fodd bynnag roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai cydweithio yn 'is optimaidd' gan ddadlau o blaid greu heddluoedd strategol trwy gyfuniadau, neu ar gyfer trefniadau plismona heddlu arweiniol. Nododd rhai ymatebwyr fod y gyfres bresennol o drefniadau cydweithredu wedi datblygu o'r 'gwaelod i fyny' i greu 'glytwaith', a galwont am gyfarwyddyd a mandad cryfach gan y Llywodraeth, yn cynnwys cymryd haen uchaf cyllid, er mwyn sicrhau ymagwedd fwy cyson ac effeithiol.
- Roedd yr enghreifftiau a gafwyd ble mae potensial amlwg i arbedion maint gyda chefnogaeth busnes yn cynnwys gwasanaethau ariannol, adnoddau

dynol, TG a gwasanaethau cyfreithiol. Roedd cefnogaeth arbennig o gryf tuag at gydweithredu pellach ar bwrcasu nwyddau a gwasanaethau, yn arbennig gwisgoedd, cerbydau a TG (ac roedd cefnogaeth tuag at fwy o gysondeb rhwng heddluoedd mewn systemau TG). Roedd cefnogaeth awyr, hyfforddiant, e-droseddau/troseddau seiber a phlismaona ffyrdd hefyd yn feysydd a dderbyniodd gefnogaeth helaeth ar gyfer ymagweddau cydweithredol.

- Roedd consensws clir mai'r swyddogaethau ble roedd ymagwedd genedlaethol fwyaf priodol oedd pwrcasu/prynu (cerbydau, gwisgoedd a TG), gwrthderfysgaeth a phlismaona troseddau cyfundrefnol. Awgrymwyd hyfforddiant, e-droseddau a throseddau seiber, plismaona'r ffiniau a diogelu plant ac oedolion agored i niwed gan nifer hefyd. Yn ogystal roedd nifer o alwadau am ymagwedd genedlaethol gryfach i reoli cudd wybodaeth a systemau TG.
- Nodwyd rhwystrau i gydweithredu i fod yn syrthio i bedwar categori eang:
  - i) *Amharodrwydd* – plwyfoldeb a hunan-les o fewn heddluoedd ac awdurdodau heddlu unigol, ac amharodrwydd i ildio neu rannu rheolaeth. Hefyd, y dehongliad y byddai eu heddlu yn 'rhodwr net' a'r dadleuon maith rhwng heddluoedd ac awdurdodau ynglŷn â lefelau cymharol buddsoddiad ac elw.
  - ii) *Heriau ymarferol* – alinio gwahanol systemau, gweithdrefnau ac ymarferion, yn ogystal ag amodau a thelerau yn arbennig ar gyfer staff heddlu mewn unedau ar y cyd. Hefyd, costau buddsoddiad o flaen llaw, anghysondeb mewn gwybodaeth a seilweithiau cyfathrebu.
  - iii) *Llywodraethu ac atebolrwydd* – diffyg llywodraethu uwchlaw lefel heddlu, a threfniadau atebolrwydd yn methu'n rhannol am nad yw awdurdodau heddlu yn gallu dirprwyo swyddogaethau atebolrwydd i'w gilydd a chyfyngiadau ar ddefnyddio cydbwyllgorau.
  - iv) *Biwrocratiaeth* – megis y gofyniad i heddluoedd ac awdurdodau ddod i gytundebau cyfreithiol unigol ar gyfer yr un cydweithrediad.
- Roedd pryderon ymysg atebwyr ynglŷn â'r tensiwn posibl rhwng blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, a chefnogaeth eang i'r ddyletswydd gref arfaethedig ar Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau i gydweithio. Argymhellodd nifer o ymatebwyr y dylai prif swyddogion hefyd gael ddyletswydd gilyddol i gydweithio.
- Mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon y gallai ffocws Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ar gyflawni eu mandad etholiadol, ac ar ddarparu gwasanaethau plismaona lleol a gweladwy, fod yn niweidiol i ddiogelwch ehangach y cyhoedd, yn arbennig gwasanaethau amddiffynnol. Mynegwyd ystod o farnau, gyda nifer yn nodi'r angen am drefniadau cadarn i Gomisiynwyr ddal prif swyddogion yn atebol am gyflawni eu gwasanaethau plismaona i gyd. Un argymhelliad penodol a wnaed oedd y

byddai Cynllun Plismona Cenedlaethol yn sefydlu disgwyliadau'r Llywodraeth ar gyfer bodloni gofynion o'r fath, gyda phrif swyddogion a Chomisiynwyr yn atebol i'r Ysgrifennydd Cartref am eu cyfraniad iddo.

- Croesawyd y bwriad i wella cydlynid gallu cenedlaethol i daclo troseddau cyfundrefnol trwy Asiantaeth Droseddau Genedlaethol newydd gan ymatebwyr, gyda chefnogaeth helaeth i gamau i gyflwyno ymagwedd genedlaethol i orchwylio a chydlynu asedau plismona, er y nodwyd y byddai angen ystyried yr union drefniadau ar gyfer sut fyddai hynny'n gweithio ymysg prif swyddogion yn ofalus. Ceisiodd rhai ymatebwyr eglurder ar p'un a fyddai asedau plismona presennol yn cael eu cymryd allan o heddluoedd a'u llyncu gan yr NCA.
- Roedd barn ymatebwyr wedi ei rannu dros y swyddogaethau (yn cynnwys i droseddau cyfundrefnol a threfniadau ffiniau) y dylai'r NCA ysgwyddo, gyda rhai'n awgrymu y dylai'r asiantaeth ymgymryd â chyfrifoldebau mewn meysydd gweithredol megis troseddau difrifol, gwrthderfysgaeth, ac e-droseddau tra bod eraill yn cefnogi'r asiantaeth yn canolbwyntio ar droseddau cyfundrefnol yn unig. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr hefyd at ryngweithrediaeth posibl asedau rhwng troseddau cyfundrefnol a phlismona gwrthderfysgaeth.
- Parthed diddymu'r NPIA yn raddol, roedd barn wedi ei rannu'n gyfartal rhwng y rhai oedd yn teimlo y dylai'r NCA ysgwyddo'r baich am rai o wasanaethau seilwaith yr heddlu y mae'r NPIA yn gyfrifol amdanynt ar hyn o bryd a'r rhai oedd yn teimlo y byddai swyddogaethau o'r fath yn tynnu sylw o ffocws cyffredinol yr asiantaeth newydd, neu'n anaddas ar ei gyfer.
- Parthed y trefniadau atebolrwydd a llywodraethu ar gyfer yr NCA newydd, fe bwysleisiodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd cael trefniadau clir a thryloyw a bod angen rôl i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau mewn unrhyw drefniadau o'r fath.
- Cefnogwyd rôl ACPO fel un o ddarparu arweinyddiaeth broffesiynol yn gyffredinol. Teimlwyd y byddai hyn yn darparu ymagwedd gyson a ffynhonnell cyngor ar gyfer gwasanaeth yr heddlu, Comisiynwyr a'r Llywodraeth.
- Amlygodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd atebolrwydd a thryloywder wrth gyflawni'r rôl hon a'r angen i sicrhau ymagwedd gynhwysol ac ymatebol. Cydnabuwyd yr angen i barhau i fuddsoddi mewn swyddogion a staff talentog ac i nodi'r mwyaf galluog ar gyfer swyddi arweinyddiaeth heriol.
- Yn fwy cyffredinol, amlygwyd yr heriau oedd heddluoedd yn wynebu i barhau i ddarparu gwasanaeth proffesiynol wrth ddarparu gwerth am arian ac fe deimlai rhai ymatebwyr na ddylai ffocws ar gymwyseddau busnes fod ar draul sgiliau gweithredol. Roedd awgrymiadau ar gyfer datblygiad cymwyseddau busnes yn cynnwys mynediad i hyfforddiant o'r tu allan i'r sector plismona, a secondiadau a phartneriaethau gyda sefydliadau cyhoeddus a phreifat ehangach.

- Nododd mwyafrif sylweddol o ymatebwyr a roddodd sylw ar yr agwedd hon o'r ymgynghoriad botensial i wasanaeth yr heddlu fanteisio ar arbenigedd y sector preifat i wella gwerth am arian, er enghraifft, o ran darparu gwasanaethau adnoddau dynol, TG, pwrcasu a chyllid. Roedd awgrymiadau hefyd y gellid defnyddio arbenigedd y sector preifat i reoli cyfleusterau dalfa, hyfforddiant, rheoli ystadau, ystafelloedd rheolaeth, cynnal a chadw cerbydau, cefnogaeth weinyddol a gwyddoniaeth fforensig. Roedd nifer o lai o ymatebwyr yn ystyried naill ai fod cynnwys y sector preifat yn amhriodol, neu fe fynegont amheumon ynglŷn â'r gwerth allai cynnwys y sector preifat mewn plismona gyflwyno.

## **YMATEB Y LLYWODRAETH**

- 4.1 Mae'r Llywodraeth yn parhau i fod o'r farn na fyddai rhaglen helaeth o uno heddluoedd yn briodol – ni fyddwn yn gorfodi uno ar heddluoedd. Nid yw mawr o reidrwydd yn well na'n well gwerth am arian. Mae plismona yng Nghymru a Lloegr ar ei orau pan fydd wedi ei seilio'n gadarn mewn cymunedau lleol ac felly ni fyddwn yn gorfodi uno ar heddluoedd a fydd yn gwanhau gallu'r cyhoedd i ddylanwadu ar a dal y rhai sy'n eu cadw'n ddiogel yn atebol. Byddai ymagwedd o'r fath yn wrthdynciad enfawr i arweinyddion yr heddlu o'u cennad ganolog o leihau troseddau, diogelu'r cyhoedd ac uchafu gwerth am arian. Dim ond os byddai'n gwbl wirfoddol gyda chytundeb gan bob parti dan sylw fyddai ceisiadau i uno gan heddluoedd ac awdurdodau yn cael eu hystyried, os byddai yna achos busnes cryf a chadarn a gyda chaniatâd eu cymunedau lleol.
- 4.2 Mae plismona yng Nghymru a Lloegr ar ei orau pan fydd wedi ei seilio'n gadarn mewn cymunedau lleol ac felly nid yw'r Llywodraeth yn cefnogi gorfodi uno ar heddluoedd a fydd yn gwanhau gallu'r cyhoedd i ddylanwadu ar a dal y rhai sy'n eu cadw'n ddiogel yn atebol. Byddai ymagwedd o'r fath yn wrthdynciad enfawr i arweinyddion yr heddlu o'u cennad ganolog o dorri troseddau, diogelu'r cyhoedd ac uchafu gwerth am arian.
- 4.3 Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y dylid cilio yn ôl i gyflenwi gwasanaeth plismona unigol gan 43 heddlu. Mae ymatebion yr ymgynghoriad yn cefnogi'r safbwynt fod angen ymagwedd newydd i gydweithredu sy'n fwy helaeth, yn fwy cyson ac yn fwy effeithiol. Dylai fod yr un sy'n ystyried yr holl fodelau o gyflawniad cydweithredol, yn cynnwys y 'model heddlu arweiniol', a'r holl bartneriaid cydweithredu posibl.
- 4.4 Rhaid i'r prif gyfrifoldeb dros ysgogi cydweithredu ddod o wasanaeth yr heddlu ei hun. Dylai Comisiynwyr a phrif swyddogion gymryd y farn ehangaf bosibl o'u swyddogaethau plismona wrth ystyried ble gallai gwell defnydd o gydweithredu gyfrannu i fwy o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Er bod angen achos busnes cryf a chadarn dros fentrau cydweithredu unigol, ni ddylid defnyddio hyn fel esgus i anwybyddu'r cyfleoedd ehangach am fanteision ledled partneriaethau cydweithredu.
- 4.5 Felly byddwn yn sefydlu dyletswydd ar y Comisiynwyr i gydweithio ble byddai gwneud hynny er lles y partneriaid cydweithredol yn gyffredinol; ac

yn unol â'r ymatebion ymgynghori, byddwn hefyd nawr yn cyflwyno dyletswydd gilyddol i brif swyddogion wneud hynny. Bydd Comisiynwyr yn eu dal yn atebol am y penderfyniadau hynny a'u gweithrediad.

- 4.6 Byddwn yn cadw'r grymoedd 'stop yn ôl' sydd gan yr Ysgrifennydd Cartref i gyhoeddi cyfarwyddiadau cydweithredu targedig os ceir methiant i gydweithio. Er mwyn sefydlu fframwaith cliriach i'r Comisiynwyr ddefnyddio yn sail i gyflenwi swyddogaethau plismona, byddwn yn deddfu i gyflwyno grymoedd newydd i'r Ysgrifennydd Cartref i sefydlu mewn rheoliadau'r meysydd hynny o blismona y dylid eu cyflawni'n awtomatig trwy gydweithredu.
- 4.7 Byddwn hefyd yn terfynu cyfyngiadau biwrocraataidd diangen i gydweithio. Rydym yn bwriadu deddfu i alluogi Comisiynwyr a phrif swyddogion i fod yn barti i un cytundeb cydweithredu allai hefyd gynnwys sefydliadau partner eraill.
- 4.8 Byddwn yn ceisio cyngor gan y Bwrdd Cenedlaethol Gwasanaethau Amddiffynnol yr Heddlu tridarn a'r Gweithgor Lefel Uchel ar Werth am Arian, o ran sut y gellir mynd ar drywydd yr ymagwedd gryfach a dyfnach hon i gydweithredu rhwng nawr a 2012 er mwyn sicrhau fod Comisiynwyr yn etifeddu cydweithredu helaeth ac effeithiol rhwng heddluoedd, awdurdodau a phartneriaid eraill. Ar y mater penodol o gefnogaeth awyr, mae gwaith wedi bod yn mynd ei flaen ers Mehefin 2009 i ddatblygu Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu yn dilyn arolwg dan arweiniad ACPO o'r strategaeth genedlaethol ar gyfer holl weithrediadau'r heddlu.
- 4.9 Yn unol â'r gefnogaeth gref i ymagwedd fwy cydlynol i gaffael, rydym yn bwriadu sicrhau fod yr Ysgrifennydd Cartref yn dargadw grymoedd i ragnodi fod gwasanaethau ac offer penodol yn cael eu caffael dan drefniadau penodol, fod y grymoedd hyn yn ymwneud yn benodol â chaffael offer, ac i alluogi'r Ysgrifennydd Cartref i ofyn am gyngor, o fewn amser penodol, ar y manylebau priodol i gaffael offer a gwasanaeth trwy drefniadau rhagnodedig.
- 4.10 Er mwy sicrhau y gwneir arbedion cyn gynted â phosibl, mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori ar wahân ar gynigion ar gyfer rheoliadau dan adrannau 53 a 57 presennol Deddf yr Heddlu 1996 i ddynodi rhai o'r trefniadau cytundebol i'w defnyddio gan wasanaeth yr heddlu i gaffael offer a gwasanaethau penodol. Fe gaeodd yr ymgynghoriad hwnnw, *Cael Gwell Gwerth am Arian o Gaffael yr Heddlu*, hefyd ar 20 Medi ac mae'r Llywodraeth yn ystyried yr ymatebion a gyflwynwyd.
- 4.11 Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r awgrymiadau a wnaed ynglŷn â sut y gallai gwasanaeth yr heddlu gymryd mantais o arbenigedd y sector preifat i wella gwerth am arian a bydd yn cyflwyno rhaglen i ddatblygu ymgysylltu pellach rhwng y sector preifat a gwasanaeth yr heddlu.
- 4.12 Mae'r ymatebion hefyd yn arddangos ehangder y ddadl ynglŷn â rôl y Comisiynydd parthed gofynion plismona cenedlaethol (megis y rhai ar gyfer gwasanaethau amddiffynnol). Wedi ystyried cyngor gan y Bwrdd

Cenedlaethol Gwasanaethau Amddiffynnol yr Heddlu tridarn, rydym yn bwriadu mewnosod yr angen i sicrhau y gall eu heddlu ddarparu gwasanaethau plismona effeithiol ar bob lefel (boed hynny'n annibynnol neu trwy gydweithio) o fewn rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau.

- 4.13 Mewn ymateb i argymhellion a wnaed gan ACPO, byddwn yn cyflwyno Gofyniad Plismona Strategol. Bydd yn ddatganiad o gymwyseddau cyfunol ddylai heddluoedd ledled Cymru a Lloegr eu sefydlu er mwy diogelu'r cyhoedd rhag niwed difrifol, a chynnal diogelwch cenedlaethol, gan ganolbwyntio ar y swyddogaethau hynny sy'n cydgrynhoi i'r lefel genedlaethol yn unig – megis diogelu'r cyhoedd rhag terfysgaeth, troseddau cyfundrefnol, anrhefn gyhoeddus ac aflonyddwch cyhoeddus a rheoli cynlluniau at raid sifil a digwyddiadau critigol. Ar elfennau mwyaf allweddol y cymwyseddau hynny, bydd hefyd yn sefydlu gofynion sylfaenol safonau y dylent weithredu iddynt er mwyn sicrhau y gall adnoddau heddlu lleol weithio'n effeithiol a heb rwystr sylweddol gyda rhai heddluoedd eraill.
- 4.14 Bydd Comisiynwyr yn arwain cyflawniad y Gofyniad Cymhwysedd Cenedlaethol ar lefel lleol. Byddant yn ei ddwyn mewn cof wrth benderfynu ar adnoddau lleol. Byddant hefyd yn dal prif gwnstabiaild yn atebol am ystyried unrhyw safonau sydd wedi eu cynnwys ynddo wrth gyflawni eu swyddogaethau.
- 4.15 Effaith y darpariaethau deddfwriaethol hyn fydd i ddarparu cefnogaeth i Gomisiynwyr a phrif gwnstabiaild i gydbwysu blaenoriaethau a phwysau lleol gyda gweithredu trawsffiniol, ar lefel genedlaethol a chydweithredol, er mwyn torri troseddau a diogelu'r cyhoedd. Yn yr achos eithafol o heddluoedd yn methu darparu lefelau effeithiol o allu, yn cynnwys cyflenwi lefel ddigonol o ystwythder yn genedlaethol (er enghraifft, ar gyfer plismona digwyddiadau cyhoeddus mawr), yna byddai gan yr Ysgrifennydd Cartref rymoedd i fynd i gytundebau perfformiad penodol â heddluoedd. Byddai grym o'r fath yn adlewyrchu'r ddarpariaeth bresennol sydd eisoes yn berthnasol i Wasanaeth yr Heddlu Metropolitan.
- 4.16 Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r gefnogaeth a gafwyd i'r bwriad i sefydlu Asiantaeth Droseddau Genedlaethol (NCA) ac yn cydnabod ehangder y ddadl ar ei union swyddogaethau. Rydym yn ystyried y byddai'n rhesymol cyflenwi nifer o swyddogaethau'r heddlu, yn cynnwys taclo troseddau cyfundrefnol a diogelu'r ffin, yn genedlaethol trwy'r asiantaeth newydd. Ni ragwelir ar hyn o bryd y bydd asedau presennol yr heddlu yn cael eu cymryd oddi ar heddluoedd a'u rhoi i'r NCA.
- 4.17 Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid o fewn gorfodi'r gyfraith i nodi'r union ystod o swyddogaethau ddylai eistedd yn yr NCA, a'r model gweithredu optimol, yn unol â'n hymdrechion i symleiddio strwythurau troseddau a phlismona cenedlaethol presennol.
- 4.18 Fe esboniodd y ddogfen ymgynghori y byddai'r NCA yn harneisio ac adeiladu ar gymwyseddau gwybodaeth, dadansoddol a gorfodi'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOCA) a'r Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP). Rydym wedi'n



calonogi gan y lefel o ganmoliaeth i waith CEOP, ac yn gwerthfawrogi pryderon rhai o'r ymatebwyr. Nid ydym wedi gwneud penderfyniad terfynol er y byddwn yn sicrhau y cynhelir llwyddiant presennol CEOP a'i hybu ble bynnag fo'n bosibl.

- 4.19 Rydym yn nodi'r awgrymiadau a wnaed parthed atebolrwydd yr asiantaeth newydd ac yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau y bydd yr asiantaeth newydd yn agored ac yn weladwy o atebol, ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd sefydlu'r berthynas fydd gan yr asiantaeth gyda'r Comisiynwyr yn glir. Byddwn, maes o law, yn cyhoeddi achos busnes fydd yn ehangu ymhellach ar y materion hyn. Ni fyddwn yn deddfu dros gyflwyno'r Asiantaeth Droseddau Cenedlaethol yn y Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, ond byddwn yn ceisio gwneud hynny ar y cyfle cyntaf.
- 4.20 Mae'r gwasanaeth angen cyfle i gael mynediad at y gorau un mewn hyfforddiant a datblygiad o fewn a thu allan i'r gwasanaeth. Bydd angen datblygu rheolaeth o dalent wedi ei gynllunio ac effeithiol i sicrhau y gall y bobl orau posibl gymryd swyddi arweiniol yn y gwasanaeth. Bydd angen i bawb sy'n gysylltiedig â phlisma chwarae eu rhan yn hyn a bydd gan Gomisiynwyr rôl allweddol yn natblygiad hyn a sicrhau fod y cymwyseddau a safonau priodol yn eu lle i gyflenwi blaenoriaethau lleol yn ogystal â chenedlaethol. Dylai'r safonau hyn adlewyrchu cymwyseddau gweithredol a rheoli busnes. Ers cyhoeddi *Plisma yn yr 21<sup>ain</sup> Ganrif*, mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi gofyn i'r Prif Gwnstabl Peter Neyroud i arolygu cyflawniad swyddogaethau arweinyddiaeth a hyfforddiant i blisma. Disgwylir i'r arolwg ddarparu ei adroddiad yn Rhagfyr 2010.

## **Pennod 5: Taclo troseddu gyda'n gilydd**

### **EIN GWELEDIGAETH**

Nid dim ond yr heddlu'n lleihau troseddu. Mae angen i'r System Gyfiawnder Troseddol gyfan gydweithio'n effeithiol i leihau troseddu – gan ddod â throsteddwyr i gyfiawnder, sicrhau cyfiawnder teg a chymesur, cefnogi dioddefwyr a thystion ac atal aildroseddu. Mae gan y cyhoedd rôl glir o ran lleihau troseddu – trwy fod yn weithredol i atal troseddu a chadw eu cymdogaethau'n ddiogel, a gweithio gyda'r heddlu i ddod â throsteddwyr i gyfiawnder. Fel yr heddlu, mae'r system gyfiawnder troseddol a phartneriaid diogelwch cymunedol wedi canolbwyntio'n ormodol ar anghenion San Steffan yn hytrach na chymunedau, ac wedi eu tynnu'n ddarnau gan dargedau a mentrau sy'n gwrthdaro yn hytrach na chynnig gwasanaeth llyfn i ddioddefwyr a chymunedau. Mae'r Llywodraeth wedi ceisio gosod gwasanaethau ar gymunedau am ormod o amser, gan lesteirio gweithredu ac ymgyrchu yn hytrach na'u galluogi i gymryd rôl weithredol eu hunain.

### **ADBORTH O'R YMGYNGHORIAD**

- Er mwyn i'r cyhoedd allu cymryd rhan mewn cadw eu cymdogaeth eu hunain yn ddiogel, roedd ymatebwyr yn credu fod pobl angen bod yn hyderus fod yr heddlu a'r System Gyfiawnder Troseddol ar eu hochr nhw, A bod asiantaethau yn atal a delio'n effeithiol â throsteddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Disgrifiodd y rhan fwyaf o'r ymatebion yr angen i gael gwared ar y risg deongliadol neu fel arall o erlyniad o ganlyniad i ymyrryd neu amddiffyn eich eiddo eich hun. Soniodd eraill am yr angen i gael mwy o hyder yn yr heddlu i gymryd eu pryderon o ddifrif, ymateb yn brydlon a gweithredu fel fo angen pan adroddiad ar fater.
- Roedd cefnogaeth gref hefyd dros gadw Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a swyddogion mewn timau plismona cymunedol ar y strydoedd, i dawelu meddyliau'r bobl ac i atal troseddu.
- Roedd cefnogaeth gyffredinol i gael mwy o bwyslais ar rôl y gymuned mewn torri troseddu – ond cydnabyddiaeth realistig y byddai awydd a gallu pobl i gymryd rhan amrywio.
- Disgrifiodd ymatebwyr ystod o wahanol weithgareddau o adrodd ar droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gosod blaenoriaethau plismona neu eistedd ar grwpiau cynghori annibynnol, bod yn Frwydrwr Troseddau Cymunedol neu wirfoddoli mwy ffurfiol (e.e. fel Cwnstabl Gwirfoddol neu Ymwelydd Dalfa Annibynnol), ac awgrymu gwahanol opsiynau i'w gynyddu. Yn benodol, roedd cefnogaeth gref dros Warchod Cymdogaeth.

- Roedd isafswm o ymatebwyr yn fwy amheugar o gynhwysiant neu wirfoddoli ar y sail ei fod yn “blismona rhad” neu ei fod yn amharu ar ddatblygiad gwasanaeth cwbl broffesiynol.
- Roedd nifer o’r farn fod angen mwy o wybodaeth a negeseuon calonogol ynglŷn â’r amrywiol ffyrdd o gysylltu â’r heddlu, gymryd rhan neu weithredu eu hunain ac ymgyrchu i ddenu sylw ar hyn. Amlygodd eraill yr angen iddi fod yn haws i adrodd ar droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a bod yna gefnogaeth i’r Rhif Galwadau Nad ydynt yn Frys (101). Roedd rhai yn pryderu ynglŷn â’r perygl o warcheidwaeth ac fe groeswyd patrolau stryd ble’u bod wedi eu cefnogi gan yr heddlu.
- Roedd cefnogaeth gref i gynnwys y gymuned yng ngwaith yr heddlu (yn cynnwys defnyddio dulliau arloesol o gyrraedd adrannau ehangach o’r gymuned megis rhith gyfarfodydd wardiau), yn ogystal â’r dulliau y gallai’r heddlu ddefnyddio i roi mwy o gyfrifoldeb i gymunedau (er enghraifft, trwy gytundebau cymdogaeth, cyllidebu cyfranogol neu gyfiawnder adferol).
- Dywedodd nifer o ymatebwyr y dylid cael mwy o gefnogaeth a buddsoddiad ar gyfer sefydliadau ar lawr gwlad, a bod awydd am rôl ffurfiol i asiantaethau (er enghraifft, timau plismona cymdogaeth neu Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol) i symbylu datblygiad cymunedol neu waith gwirfoddoli.
- Awgrymodd nifer wahanol fentrau i annog unigolion i wirfoddoli yn cynnwys gostyngiadau treth (cyngor), gostyngiadau gan fusnesau lleol neu gwmnïau yswiriant, cydnabyddiaeth (e.e. trwy wobrau i wirfoddolwyr neu’r system anrhydeddau), cymwysterau cydnabyddedig neu hyfforddiant achrediad allai gefnogi addysg neu geisiadau cyflogaeth a chyflogwyr yn caniatáu amser o’r gwaith a rhoi credyd i gyflogwyr am wneud hynny.
- Mae’r gwahanol ysgogiadau hyn hefyd yn rhan o atebion ymatebwyr i’r cwestiwn penodol ynglŷn â chwnstabiailid gwirfoddol. Roedd ymatebwyr hefyd o’r farn fod mwy o anogaeth i wirfoddoli mewn sefydliad sy’n gwerthfawrogi cyfraniad gwirfoddolwyr ac yn darparu rôl bendant, a chafwyd un awgrym i ddatblygu sgiliau rheoli gwirfoddolwyr. Roedd diffyg amser yn anghymhellid yng ngolwg nifer o ymatebwyr. Nid yw pobl sy’n yw bywydau prysur ac a fyddai’n barod i wirfoddoli fel arall yn gallu gwneud ymroddiad sylweddol am nad oes ganddynt yr amser.
- Yn ystod ymgynghoriadau ag ymgyrchwyr, dywedodd nifer iddynt gymryd rhan mewn ymateb i broblem benodol a’i bod yn anodd denu pobl mewn ardal ble mae troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn isel. Fodd bynnag, roeddynt yn teimlo fod ymgyrchu yn mynd yn llawer pellach na materion troseddau / ymddygiad gwrthgymdeithasol ac y dylai fod yn seiliedig ar ddatblygu naws gymunedol (neu gyfalaf cymdeithasol). Roedd galwadau am ymgysylltu ar y cyd rhwng yr heddlu a phartneriaid lleol eraill, ac fe amlygwyd cynghorwyr wardiau yn benodol fel modd pwysig o ymgysylltu â chymunedau ar hyn o bryd.

- Er mwyn gallu cymryd rhan, teimlai nifer o ymatebwyr eu bod angen mwy o hyder ac ymddiriedaeth mewn System Gyfiawnder Troseddol sy'n diogelu hawliau dioddefwyr a thystion ac yn eu hamddiffyn rhag ofn o ddial, gyda rhai'n pwysleisio'r angen am gyfiawnder mwy gweladwy ac adborth ar gynnydd ac eraill yn nodi'r angen am system fwy effeithiol ac effeithlon.
- Adlewyrchwyd hyn mewn ymatebion i'r cwestiwn ar weithredu gan y Llywodraeth i wneud y System Gyfiawnder Troseddol yn fwy effeithiol. Teimlai ymatebwyr a amlygodd yr angen am fwy o ffocws ar ddioddefwyr ar bob cam y dylai'r llysoedd gefnogi a deall dioddefwyr a thystion yn well, a bod cydweithredu rhwng asiantaethau yn allweddol i ddarparu'r gefnogaeth hon a hybu hyder yn y system. Crybwyllwyd hawl dioddefwyr i apelio yn erbyn dedfryd, defnydd o enillion o droseddau, cymhelliant ac iawndal hefyd.
- Nododd nifer o ymatebwyr fod gweithdrefnau a phrosesau cyfreithiol yn araf ac anhyblyg ac y gellid symleiddio'r rhain. Roed cynigion yn cynnwys lleihau gohiriadau a chanslo achosion llys, a defnyddio technoleg, adeiladau a phersonél mewn modd mwy hyblyg.
- Roedd galwad i ddiwygio erlyniadau ac i drosglwyddo mwy o benderfyniadau cyhuddo i'r heddlu, yn ogystal ag awydd i greu mwy o gymhelliant i'r rhai sy'n pledio'n euog yn gynnar, neu gosbau am rai hwyr.
- Roedd ymatebwyr yn gymysg o ran eu diagnosis o'r cydbwysedd rhwng cosbi ac adsefydlu oedd angen i leihau aildroseddu, ond roeddynt yn glir fod hyn yn allweddol i ddiwygio'r system. Ymysg yr awgrymiadau a gafwyd oedd ymagweddau amlasiantaethol i daclo teuluoedd trafferthus, delio â hyd dedfrydau a chynyddu'r defnydd o gyfiawnder adferol, ymagweddau talu yn ôl a thalu yn ôl canlyniadau.
- Nododd ymatebwyr fod cydweithio agos rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol wedi gwella'n sylweddol gyda gweithrediad ystod o ddulliau o weithio megis rheolaeth troseddwr integredig. Teimlwyd fod yr ystod o bartneriaethau strategol a thactegol oedd wedi eu sefydlu wedi bod yn llwyddiannus o ran dod â phartneriaid y System Gyfiawnder Troseddol ynghyd (roedd hyn yn cynnwys atodiad diweddar y Gwasanaeth Prawf fel partner Partneriaeth Diogelwch Cymunedol statudol), er i rai nodi fod angen ehangu perchnogaeth o faterion y System yn lleol, yn arbennig gydag awdurdodau lleol.
- Cynigiodd rhai ymatebwyr y dylai'r Comisiynydd fod yn gyfrifol am oruchwylio'r System Gyfiawnder Troseddol i gyd, ond mynegodd eraill bryderon y gallent rannu partneriaid oedd yn dechrau cydweithio ar feysydd megis rheolaeth integredig o droseddwr.
- Fodd bynnag, galwodd ymatebwyr ar lywodraeth ganolog i well gweithio ar y cyd ar lefel genedlaethol i gynorthwyo i gryfhau diogelwch cymunedol llwyddiannus a gweithio mewn partneriaeth ar lefel leol ar y System Gyfiawnder Troseddol.

- Dywedodd nifer o ymatebwyr y byddai'r cyhoedd yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn atal troseddau. Teimlai rhai ymatebwyr fod angen mwy o bwyslais ar fesurau ataliol, gyda neges glir fod angen i hyn fod yn ymagwedd holistaidd yn cynnwys partneriaid eraill.
- Adroddodd ymatebwyr fod targedau canolog yn aml yn rhwystr i weithio mewn partneriaeth effeithiol – dylai partneriaid fod yn rhydd i ddatblygu eu targedau lleol eu hunain gan ystyried anghenion eu cymunedau. Barnwyd fod gofynion craidd ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn seiliedig ar brosesau cynllunio strategol yn ddefnyddiol, ond roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y dylid penderfynu'n lleol ar y cyfnodau amser i'w gweithredu. Roedd nifer yn teimlo fod ystod o asiantaethau llinell flaen yn gweithio ar agendâu tebyg a bo angen gwell aliniad o brosesau cynllunio rhwng asiantaethau.
- Nododd nifer o ymatebwyr y dylem ddibynnu ar strwythurau a mecanweithiau presennol, gan gael gwared ar ddyblygu a gwastraff ble fo'n bodoli mewn trefniadau partneriaeth presennol, yr oedd rhai'n ystyried i fod yn gymhleth, aneglur a rhanedig.
- Ystyriwyd fod rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth dda yn elfennau allweddol o ddatrys problemau effeithiol a gweithio amlasiantaethol. Nodwyd diffyg rhannu gwybodaeth oherwydd deddfwriaeth rhannu data aneglur a chyfyngol gan nifer o ymatebwyr fel rhwystr i gydweithio effeithiol.
- Nododd nifer o ymatebwyr fod cyllid byr dymor a diffyg cyllid cynaliadwy gan Lywodraeth yn rhwystr sylweddol i weithio mewn partneriaeth effeithiol gan fod hyn yn gwneud cynllunio hirdymor yn anodd iawn.

## **YMATEB Y LLYWODRAETH**

- 5.1 Credwn fod partneriaethau effeithiol yn allweddol i leihau troseddu. Ble fo partneriaethau'n gweithio'n dda gallant atal dyblygiad, cynnig gwerth am arian a thaclo troseddau ac anrhefn yn fwy effeithiol nag asiantaethau yn gweithio ar eu pennau eu hunain. Mae angen i bartneriaethau fod wedi eu cyfeiriadu at weithredu yn hytrach na chyfarfodydd er mwyn iddynt allu cyflenwi gwell gwasanaethau i'w cymunedau lleol.
- 5.2 Rydym yn cytuno y bydd pob eisiau cymryd rhan mewn taclo troseddau i wahanol raddau – yn amrywio o ymddygiad gwrthgymdeithasol heriol i wirfoddoli fel cwnstabl gwirfoddol. Yn fuan iawn byddwn yn cyhoeddi dogfen strategaeth troseddau fydd, yn rhan o'n hymagwedd gyffredinol i daclo troseddau, yn sefydlu sut ydym yn bwriadu cael mwy o bobl i gymryd rhan mewn taclo troseddau mewn amrywiol ffyrdd.
- 5.3 Bydd y strategaeth troseddau hon yn cynnwys trefniadau yr ydyn eisoes wedi eu cyhoeddi, megis Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau – y bydd y cyhoedd yn gallu eu hethol; cyfarfodydd data troseddau manwl a bîb – y gall y cyhoedd ddefnyddio i ddal yr heddlu yn atebol; a'n gwaith parhaus

gyda'r heddlu i geisio sefydlu 101 fel Un Rhif Galwadau nad ydynt yn Frys. Bydd hefyd yn cynnwys y camau newydd fyddwn yn cymryd i rymuso'r cyhoedd a busnesau a'r sector wirfoddol i allu creu eu datrysiadau eu hunain.

- 5.4 Mae'r dasg o adeiladu cymhwysedd unigolion, cymunedau a sefydliadau er mwyn i gymdogaethau gael rheolaeth o'u tynged eu hunain yn ymestyn ar draws Llywodraeth ac yn ganolog i'r Gymdeithas Fawr. Mae Swyddfa'r Gymdeithas Sifil wedi cyhoeddi *Cefnogi Cymdeithas Sifil gryfach* yn ddiweddar sy'n ymgynghori ar gynigion i:
- a) Ei gwneud yn haws i sefydlu a rhedeg elusen, menter gymdeithasol neu sefydliad gwirfoddol;
  - b) Gael mwy o adnoddau i'r sector, cryfhau ei annibyniaeth a gwytnwch; ac
  - c) Ei gwneud yn haws i'r sector weithio gyda'r wladwriaeth.
- 5.5 Rydym hefyd yn credu ei bod yn bwysig fod y cyhoedd sy'n weithredol yn derbyn cydnabyddiaeth a chefnogaeth. Felly yn ddiweddar fe gyhoeddodd y bydd y Farwnes Newlove yn gweithredu fel Hyrwyddwr Cymunedau Mwy Diogel, Gweithredol.
- 5.6 Rydym yn bwriadu cael gwared ar rywfaint o'r ddeddfwriaeth ragnodol, targedau a mentrau o'r brig i lawr, gan ganiatáu i awdurdodau cyfrifol Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a'u partneriaid gael mwy o hyblygrwydd yn lleol ac annibyniaeth broffesiynol. Rydym wedi ymgynghori â phartneriaid yn Lloegr ynglŷn â rheoleiddio'r Partneriaethau (a byddwn yn gwneud yng Nghymru yn fuan) a byddwn yn cyfathrebu â phartneriaid maes o law ynglŷn â pha reoliadau yr ydym yn bwriadu eu diddymu.
- 5.7 Rydym yn cydnabod yr angen i dacluso'r dirwedd gyflenwi lleol a byddwn yn gweithio i ddechrau gydag adrannau eraill llywodraeth i ystyried sut fyddai'r modd gorau i ni annog cydweithredu lleol sydd wedi ei alinio â'r Gymdeithas Fawr ac â'r buddiannau mwyaf i gymunedau lleol.
- 5.8 Rydym yn edrych ar opsiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau gael cyllideb i gomisiynu gwaith diogelwch cymunedol gan yr ystod lawn o bartneriaid lleol, statudol ac anstatudol. Bydd yn caniatáu i'r Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau daclo blaenoriaethau ledled yr heddlu ac i weithio'n agos gyda phartneriaid lleol eraill i gyflawni'r canlyniad lleol gorau i gymunedau lleol. Rydym am leihau'r nifer o derfynau ar gyllid a sefydlwyd yn flaenorol, i alluogi mwy o hyblygrwydd lleol i ddelio â phroblemau lleol.
- 5.9 Rydym yn cydnabod fod rhannu gwybodaeth effeithiol yn galluogi partneriaid i gyflawni ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth, targedig o ran diogelwch cymunedol ac i werthuso eu heffaith. Rydym yn edrych ar y mater hwn yn ehangach ac yn gweithio gydag adrannau eraill y llywodraeth, i nodi sut y gallwn helpu partneriaid i drechu anawsterau a hyrwyddo ymarfer effeithiol i rannu gwybodaeth.

- 5.10 Rydym yn cytuno â'r ymatebwyr y awgrymodd fod angen i'r System Gyfiawnder Troseddol gael mwy o ffocws ar ddiodefwrwr a bod angen diwygio'r ymagwedd i gosbi ac adsefydlu. Bydd Papur Gwyrdd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar adsefydlu a dedfrydu yn sefydlu sut ydym yn bwriadu delio â hyn trwy raglen uchelgeisiol o ddiwygio yn seiliedig ar egwyddorion rhyddid, tegwch a chyfrifoldeb.
- 5.11 Trwy gael gwared ar gyfyngiadau biwrocraidaidd byddwn yn creu rhyddid i ddatgloi arloesi o'r sector wirfoddol ac o'r sector preifat. Byddwn yn symud oddi wrth ymagwedd o'r brig i lawr yn seiliedig ar fewnbynau a thargedau tuag at un sy'n gwobrwyo'r rhai sy'n gyfrifol am leihau aildroseddu a throseddu'n seiliedig ar y canlyniadau maent yn cyflawni. Er bod gennym ddyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd, mae gennym hefyd gyfrifoldeb i ddiogelu'r rhyddid a'r hawliau sifil sy'n ategu cymdeithas rydd. Dyma pam ein bod yn cyflwyno Mesur Rhyddid i leihau'r baich deddfwriaethol a osodwyd ar ddinasyddion yn y blynyddoedd diwethaf.
- 5.12 Y tlotaf mewn cymdeithas sy'n dioddef fwyaf o droseddau. Bydd ein diwygiadau yn cyflenwi mwy o degwch trwy daclo'r troseddwr sy'n achosi cymaint o ddifrod i'r cymunedau hyn. Bydd troseddwr yn cael eu cosbi'n briodol am eu gweithredoedd, a byddwn yn taclo'r problemau sy'n cyfrannu tuag at eu hymddygiad troseddol megis caethiwed i gyffuriau ac alcohol, salwch meddyliol a diffyg addysg. Rhaid i droseddwr hefyd wynebu oblygiadau eu gweithredoedd a newid eu hymddygiad. Rydym eisiau ei gwneud yn llawer cliriach i droseddwr fod yna oblygiadau difrifol a sylweddol i dorri'r gyfraith; a bod ganddynt ddyled i'w diodefwrwr am y niwed a choswyd a chyfrifoldeb i gyfrannu'n adeiladol i gymdeithas.
- 5.13 Byddwn yn parhau i chwilio am ddulliau o symleiddio'r broses achosion troseddol er mwyn cyflenwi gwelliannau pellach ac effeithlonrwydd yn y System Gyfiawnder Troseddol ac rydym yn ymgynghori ar siâp ystadau'r llysoedd yn y dyfodol, er mwyn creu system gyfiawnder fodern, addas i'r pwrpas. Fel y soniwyd eisoes ym Mhennod 3 y ddogfen hon, yn rhan o adfer cyfrifoldeb proffesiynol, rydym yn dychwelyd penderfyniadau cyhuddo at yr heddlu ar gyfer ystod ehangach o droseddau.
- 5.14 Bydd dyletswydd gilyddol i gydweithio rhwng y Comisiynydd a phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn *Plismona yn yr 21<sup>ain</sup> Ganrif*, mae'r Llywodraeth yn parhau i wel rôl bosibl i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn y dyfodol parthed y System Gyfiawnder Troseddol ehangach i gyflenwi gwasanaeth effeithiol, effeithlon i ddiodefwrwr, tystion a'r gymuned ehangach. Byddwn yn archwilio hyn wrth i ddiwygiadau pellach ddatblygu.
- 5.15 Ein gweledigaeth yw o system gyfiawnder troseddol ble mae arweinyddion lleol wedi eu huno gydag achos cyffredin a gwerthoedd cyfunol a byddwn yn cefnogi datblygiad partneriaethau lleol cadarn ac ystyrlon ledled diogelwch cymunedol a gwasanaethau cyfiawnder troseddol i wneud hyn yn realiti.

## Rhestr o ymatebwyr

### SEFYDLIADAU CENEDLAETHOL

- Adfam
- Aero Space Defence Security
- Airwave Solutions
- Alliance against Intellectual Property Theft
- Cymdeithas Marchnadoedd Ariannol Ewrop
- Cymdeithas Prif Gwnstablaiid yr Heddlu (ACPO)
- Cymdeithas Prif Gwnstablaiid yr Heddlu (ACPO) – Pobl ar Goll
- Cymdeithas Prif Gwnstablaiid yr Heddlu (ACPO) – Fforwm Menywod
- Cymdeithas Prif Gwnstablaiid yr Heddlu yn yr Alban (ACPOS)
- Cymdeithas Siopau Cyfleustra (ACS)
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant Cyf (ADCS)
- Cymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol (AEA)
- Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu (APA)
- Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau'r Heddlu (APACE)
- Cymdeithas Cyfreithwyr yr Heddlu
- Y Comisiwn Archwilio
- Barnardos
- Beatbullying
- Cymdeithas Bancwyr Prydain (BBA)
- Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain (BHA)
- Cymdeithas Porthladdoedd Prydain (BPA)
- Cymdeithas Seicolegol Prydain (BPS)
- Consortiwm Manwerthu Prydain (BRC)
- Cymdeithas Diwydiant Diogelwch Prydain (BSIA)
- British Telecom PLC
- Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTPA)
- Cymdeithas Rhentu a Phrydlesu Cerbydau Prydain (BVRLA)
- Cymdeithas Cymdeithasau Adeiladu (BSA)
- Y Ganolfan Craffu Cyhoeddus (CfPS)
- Siambr Llongau – Pwyllgor Materion Teithwyr
- Cymdeithas Staff Prif Swyddogion yr Heddlu (CPOSA)
- Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP)
- Comisiynwyr Plant Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban
- CIFAS
- CNET
- Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI)
- Llais Defnyddwyr
- Detica
- ECPAT UK
- Y Comisiwn Etholiadol
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC)
- Cynghrair Cerbydau Diogel Ewrop (ESVA)
- Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB)
- Cymdeithas Cyllid a Phrydlesu (FLA)
- Rheolydd Gwyddoniaeth Fforensig
- Forensic Telecommunications Services Ltd (FTS)
- Panel Cynghori Twyll (FAP)
- Arolygiaeth Cwnstablaieth Ei Mawrhydi (HMIC)
- Pwyllgor maint gefn Materion Cartref, Cyfiawnder a Chydraddoldeb
- Astudiaethau Ymchwil Academaidd Annibynnol (IARS)
- Intellect Information Technology



- Cymdeithas Telathrebu ac Electroneg
- Internet Watch Foundation (IWF)
- Keep Britain Tidy
- Key Forensic Services Ltd
- Liberty
- Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA)
- Lockheed Martin UK
- Master Locksmiths Association (MLA)
- MENCAP
- Microsoft
- MIND
- Missing People
- Canolfan Genedlaethol Pobl Ar Goll ac a Fanteisir Arnynt
- National Crime Authority (Australia)
- Rhwydwaith Gwarchod Cymdogaethau a Chartrefi
- New Local Government Network (NLGN)
- Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)
- Parents and Abducted Children Together (PACT)
- Fforwm Diogelwch y Diwydiant Fferyllol
- Bwrdd Cynghori'r Heddlu ar gyfer Cymru a Lloegr (PABEW)
- Cymdeithas Trysoryddion Awdurdod yr Heddlu (PATS)
- Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr
- Bwrdd Arholi Dyrchafiadau'r Heddlu (PPEB)
- Cymdeithas Uwch Arolygwyr Heddlu Cymru a Lloegr
- Policy Exchange
- Probation Exchange
- QinetiQ
- Royal Bank of Scotland Insurance
- Reading Matters
- Reliance Secure Task Management Ltd
- Restorative Solutions
- Revolving Doors Agency
- Cymdeithas Cludiant Ffordd (RHA)
- Cymdeithas Frenhinol i Ddiogelu Adar (RSPB)
- Sgiliau er Cyfiawnder
- Social Landlords Crime and Nuisance Group (**SLCNG**)
- Standards for England
- Cymdeithas Adloniant Rhyngweithiol y Deyrnas Unedig (UKIE)
- Cynghrair Elusennau Plant ar Ddiogelwch ar y Rhyngwrwyd (CHIS)
- Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC)
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)
- Cymdeithas y Cyfreithwyr
- Cymdeithas yr Ynadon
- Sefydliad yr Heddlu
- Ymddiriedolaeth y Tywysog
- The Runneymede Trust
- TRACKER Network UK
- Sefydliad Safonau Masnach (TSI)
- Transition to Adulthood Alliance (T2A)
- UK Security and Resilience Industry Suppliers Community
- UNISON
- Prifysgol Caergrawnt – Sefydliad Troseddeg
- Prifysgol Rhydychen – Adran Troseddeg
- Cymorth i Ddioddefwyr
- Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr
- Vodafone UK
- Volunteering England
- Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu Cymru (WAPA)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
- Women in Prison
- Swyddfa Genedlaethol Plant Ifanc
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid Cymru a Lloegr (YJB)

## SEFYDLIADAU LLEOL A RHANBARTHOL

- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Avon a Gwlad yr Haf
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Aylesbury Vale
- Cyngor Bwrdeistref Metropolitaidd Barnsley
- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Swydd Bedford
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Bolsover
- Cyngor Bwrdeistref Braintree
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Fforwm Ymgysylltu â'r Gymuned Bromley
- Tîm Diogelwch Cymunedol a Chyffuriau BSafe Blackpool
- Cyngor Calderdale
- Cabinet Cyngor a Phanel Craffu Cyngor Bwrdeistref Metropolitaidd Calderdale
- Cyngor Sir Swydd Gaergrawnt
- Cyngor Caerdydd
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Carlisle ac Eden
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gaerfyrddin
- Cymdeithas Tai Cymunedol Castle Vale, Brimingham
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Canol Swydd Bedford
- Cyngor Sir Ceredigion
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Charnwood a Chyngor Bwrdeistref Charnwood
- Cyngor Dosbarth Chiltern
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Chorley a South Ribble
- Cyngor Bwrdeistref Christchurch
- Dinasyddion yn ymwneud â chefnogi plismona cymunedol
- Cyngor Dosbarth Metropolitaidd Dinas Bradford
- Corfforaeth Dinas Llundain
- Grŵp Llafur Cyngor Dinas Efrog
- Collinson Grant
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Cernyw
- Cyngor Cernyw
- Gwasanaeth Tân ac Achub County Durham a Darlington
- Cyngor Dosbarth Craven
- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cumbria
- Partneriaeth Thematig Cumbria Fwy Diogel a Chryf
- Cyngor Bwrdeistref Darlington
- Cyngor Bwrdeistref Dartford
- Cyngor Sir Derby
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Prawf Dyfnaint a Chernyw
- Ymddiriedolaeth Cynghorau Dosbarth
- Partneriaeth Cymuned Dorset
- Cyngor Sir Dorset
- Ymddiriedolaeth Prawf Durham Tees Valley
- Cyngor East Riding yn Swydd Efrog
- Cyngor Sir Dwyrain Sussex
- Maer Etholedig Dwyrain Tyneside
- Tîm Diogelwch Cymunedol Enfield
- Cyngor Epping Forest
- Cyngor Bwrdeistref Erewash
- Cyngor Sir Essex
- Gwasanaeth Prawf Essex
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Exeter
- Partneriaeth Strategol Leol Forest of Dean
- Cyngor Sir Swydd Gaerloyw
- Cyngor Bwrdeistref Great Yarmouth
- Cyngor Greenwich
- Cynghorau Dosbarth Hambleton a Swydd Richmond
- Cyngor Sir Hampshire
- Cyngor Haringey
- Partneriaeth Diogelwch Cymuned Dosbarth Harrogate
- Harvest Housing

- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Havering
- Cyngor Bwrdeistref High Peak
- Cyngor Dinas Hull
- IAG Race
- JUST Gorllewin Swydd Efrog
- Cyngor Sir Caint
- Cyngor Kirklees
- Cyngor Sir Swydd Gaerhirfryn
- Cyngor Dinas Lancaster
- Cyngor Dinas Leeds
- Gwarchod Cymdogaeth Lincoln
- Panel Data Cyhoeddus Lleol
- Bwrdeistref Llundain Ealing
- Bwrdeistref Llundain Hammersmith a Fulham
- Bwrdeistref Llundain Wandsworth
- Partneriaeth Plismona Cymunedau Llundain
- Cynghorau Llundain
- Ymddiriedolaeth Prawf Llundain
- Cymdeithas Trigolion Loughton
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Luton
- Rhaglen M'Lop Tapang i Blant Stryd
- Cyngor Bwrdeistref Maidstone
- Cyngor Dosbarth Maldon
- Adran Ddwyreiniol Cyngor Market Harborough
- Aelod Seneddol Rochester a Strood
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Mid Sussex
- Cyngor Milton Keynes
- Cyngor Sir Fynwy
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol GDd Swydd Derby
- Cyngor Dosbarth Newark a Sherwood
- GIG Canol Swydd Gaerhirfryn
- Cyngor Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln
- Cyngor Sir Gogledd Swydd Efrog
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Swydd Efrog
- Gwasanaeth Cyhoeddus Northgate
- NW Regional Joint Committee
- NW Tenant and Residents Association
- Cyngor Oldham
- Cyngor Sir Swydd Rydychen
- PA Consulting Group
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Pendle
- Cyngor Bwrdeistref Redcar a Cleveland
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Richmond upon Thames
- Rock Kitchen Harris Ltd
- RON Digital
- Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Rotherham
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Rugby
- Partneriaeth Durham Fwy Diogel
- Partneriaeth Arun Fwy Diogel
- Partneriaeth Birmingham Fwy Diogel
- Partneriaeth Dwyrain Swydd Gaer Fwy Diogel
- Partneriaeth Dyfnaint Fwy Diogel
- Partneriaeth Middlesbrough Fwy Diogel
- Cymdogaethau Mwy Diogel ward Kilburn, Bwrdeistref Llundain Brent
- Partneriaeth Peterborough Fwy Diogel
- Partneriaeth Slough Fwy Diogel
- Partneriaeth Solihull Fwy Diogel
- Partneriaeth Stockton Fwy Diogel
- Partneriaeth Sunderland Fwy Diogel
- Partneriaeth Waverley Fwy Diogel
- Partneriaeth Efrog Fwy Diogel
- Partneriaeth Cymunedau Diogel
- Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Sandwell
- Cyngor Dinas Sheffield
- Grŵp Llafur Cyngor Dinas Sheffield

- Cyngor Bwrdeistref  
Metropolitaidd Solihull
- Cyngor Sir Gwlad yr Haf
- Partneriaeth Diogelwch  
Cymunedol De Dyfnaint a  
Dartmoor
- Cyngor De Swydd Caerloyw
- Partneriaeth Diogelwch  
Cymunedol De Swydd Stafford
- Cyngor De Tyneside
- Cyngor Dinas Southampton
- Partneriaeth Diogelwch  
Cymunedol St Albans
- Cyngor Bwrdeistref St  
Edmundsbury
- Partneriaeth Diogelwch  
Cymunedol St Helens
- Ymddiriedolaeth Prawf Swydd  
Stafford a Gorllewin  
Canolbarth Lloegr
- Cyngor Dosbarth  
Gweundiroedd Swydd Stafford
- Cyngor Bwrdeistref Stevenage
- Cyngor Stockport
- Partneriaeth Dinas Fwy Diogel  
Stoke on Trent
- Cyngor Sir Suffolk
- Sun Guard Public Sector
- Cyngor Sir Surrey
- Cynghrair Trydydd Sector  
Tameside
- Cyngor Dosbarth Tendring
- Cyngor Bwrdeistref Tonbridge  
a Malling
- Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Torfaen
- Ymddiriedolaeth Prawf Cymru
- Cyngor Sir Warwick
- Rhaglen Canolfan Gyfiawnder  
Swydd Warwick
- Cyngor Dosbarth Waveney
- Cyngor Bwrdeistref Waverley
- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol  
Gorllewin Canolbarth Lloegr
- Cydbwyllgor Gorllewin  
Canolbarth Lloegr
- Cyngor Dosbarth Gorllewin  
Swydd Rydychen
- Cyngor Sir Gorllewin Sussex
- Gwasanaeth Prawf Gorllewin  
Swydd Efrog
- Cyngor Dinas Westminster
- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol  
Wiltshire
- Partneriaeth Diogelwch  
Cymunedol Windsor a  
Maidenhead
- Cyngor Dinas Wolverhampton
- Partneriaeth Diogelwch  
Cymunedol Wreccsam
- Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Wreccsam
- Partneriaeth Diogelwch  
Cymunedol Wycombe
- Cyngor Bwrdeistref Wyre

## **HEDDLUOEDD AC AWDURDODAU HEDDLU**

- Cymdeithas Awdurdodau Manceinion Fwyaf
- Awdurdod Heddlu Avon a Gwlad yr Haf
- Awdurdod Heddlu Swydd Bedford
- Cwnstabiliaeth Swydd Gaergrawnt
- Awdurdod Heddlu Swydd Gaer
- Awdurdod Heddlu Cleveland
- Awdurdod Heddlu Cumbria
- Awdurdod Heddlu Dyfnaint a Chernyw
- Cwnstabiliaeth Dyfnaint a Chernyw
- Awdurdod Heddlu Dorset
- Awdurdod Heddlu Durham
- Awdurdod Heddlu Dyfed Powys
- Heddlu Essex
- Awdurdod Heddlu Essex
- Awdurdod Heddlu Swydd Gaerloyw
- Heddlu Manceinion Fwyaf
- Awdurdod Heddlu Manceinion Fwyaf
- Awdurdod Heddlu Gwent
- Cwnstabiliaeth Hampshire
- Awdurdod Heddlu Hampshire
- Awdurdod Heddlu Humberside
- Awdurdod Heddlu Caint
- Cwnstabiliaeth Swydd Gaerhirfryn
- Awdurdod Heddlu Swydd Gaerhirfryn
- Cwnstabiliaeth Swydd Gaerlyr
- Awdurdod Heddlu Swydd Gaerlyr
- Awdurdod Heddlu Swydd Lincoln
- Maer Llundain, Cynulliad Llundain, a Chadeirydd yr Awdurdod Heddlu Metropolitan
- Awdurdod Heddlu Glannau Merswy
- Awdurdod Heddlu Metropolitan
- Gwasanaeth Heddlu Metropolitan
- Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Swydd Efrog
- Awdurdod Heddlu Gogledd Swydd Efrog
- Awdurdod Heddlu Swydd Northampton
- Awdurdod Heddlu Northumbria
- Awdurdod Heddlu Swydd Nottingham
- Awdurdodau Heddlu NW
- Awdurdodau Heddlu Cymru
- Awdurdod Heddlu De Cymru
- Heddlu De Swydd Efrog
- Awdurdod Heddlu De Swydd Efrog
- Awdurdod Heddlu Swydd Stafford
- Awdurdod Heddlu Suffolk
- Heddlu Surrey
- Awdurdod Heddlu Surrey
- Heddlu Sussex
- Awdurdod Heddlu Sussex
- Heddlu Thames Valley
- Awdurdod Heddlu Thames Valley
- Awdurdod Heddlu Swydd Warwick
- Heddlu Gorllewin Caint
- Heddlu Gorllewin Mercia
- Awdurdod Heddlu Gorllewin Mercia
- Awdurdod Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr
- Heddlu Gorllewin Swydd Efrog
- Awdurdod Heddlu Gorllewin Swydd Efrog
- Awdurdod Heddlu Wiltshire